PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 388 | EBRILL 2016










## Twrnament Pêl-droed


Dan 12 - Ail - Padarn


Dan 11 - enillwyr Ystwyth Gators B

Lluniau:Jonwatkissimaging.co.uk


O Dan 12 - Enillwyr: Aberaeron.


Dan 9 - enillwyr Machynlleth

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter a'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elinhefin@gmail.com
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mai – Deunydd i law:** Mai 6 **Dyddiad cyhoeddi:** Mai 18

**EBRILL 16** Dydd Gwener - **MEHEFIN 4** Dydd Sadwrn - Borth - yma o hyd. Casgliad o ffotograffau gan Bruce Caldwell sy'n portreadu'r gymuned yn y pentref. Bydd gwaith y bardd Elin ap Hywel a'r arlunydd Rhodri Evans yn rhan o'r arddangosfa ym MOMA Cymru, Machynlleth.

**EBRILL 22-23** Nos Wener - 5.30 a Dydd Sadwrn 1.00 a 5.30 Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

**EBRILL 22** Nos Wener Lansio CD Penillion i'r Leri. Clwb Nos Wener yn y Llew Du, Tal-y-bont am 8.00

**EBRILL 24** Pnawn Sadwrn Te Pnawn a Taith LandRover Ffermdy Maesbangor, Capel Bangor am 2.00. Elw at Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion. ARCHEBWCH O FLAEN LLAW ER MWYN OSGOI SIOM
Mwy o wybodaeth: Delyth Morgan, Pwllglas 01970 820656
*www.sioeaberystwyth.com*
*fb.com/sioeaberystwythshow*
*@sioe_abershow*

**EBRILL 27** Nos Fawrth Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Pwyllgor Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 8.00

**EBRILL 28** Nos Iau Hystings yng nghwmni chwech o ymgeiswyr Ceredigion ym Morlan am 7.30 Trefnir gan Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru

**MAI 3-4** Nosweithiau Mawrth a Mercher Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Mrs Reynolds a'r cena bach (Gary Owen; cyf. Meic Povey) yn Theatr y Werin am 7.30

**MAI 5** Dydd Iau Etholiadau'r Cynulliad

**MAI 15-21** Wythnos Cymorth Cristnogol

**MAI 30 – MEHEFIN 4** Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Sir y Fflint

**MEHEFIN 4-5** Dyddiau Sadwrn a Sul Rali CFFI Ceredigion ym Merthlwyd, Tal-y-bont a Chymanfa Ganu ar y Sul

**MEHEFIN 23** Dydd Iau Refferendwm Ewrop

**MEHEFIN 26** Dydd Sadwrn Taith Cymdeithas y Penrhyn i ardal Wrecsam a Maelor Saesneg dan ofal Gareth Vaughan Williams. Manylion gan Ysgrifennydd y Gymdeithas - Ceris Gruffudd

## Rhoddion

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Cyngor Cymuned y Borth £100

**Ymunwch â grŵp Facebook Ytincer**

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

**Camera'r Tincer** Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mawrth 2016

**£25** (Rhif 46) Aled Bebb. Penpistyll, Goginan
**£15** (Rhif 243) Linda Jones, Y Berllan, Llanfihangel Genau'r-glyn
**£10** (Rhif 247) Stephen Williams, Llys y Coed, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Mawrth 16

### Annwyl Olygydd

Diddorol oedd darllen y llythyr oddi wrth Idris a Linda Hughes o Ganada (*Tincer*, Mawrth) am William a Mary Anne Cottingham a ymfudodd o Goginan i Ganada yn 1927, ac am eu mab, Cyril Cottingham. Yr oedd Mary Cottingham yn chwaer i fy nhad, Thomas Morgan Jones (Tommy), o Goginan yn wreiddiol, a phan oedd yn ŵr ifanc fe aeth yntau hefyd i Ganada yng nghwmni un o'i frodyr, Dan Jones, Goginan, gan fwriadu setlo yno. Ond penderfynu dychwelyd wnaeth y ddau yn nes ymlaen. Mae gennyf gof plentyn am Cyril Cottingham, a oedd yn aelod o awyrlu Canada, yn ymweld â ni tua 1942 ym Mhen-y-bont Rhydybeddau, pan oedd ei gatrawd ar ymweliad milwrol â Phrydain. Cyn pen fawr o dro ar ôl hynny daeth y newyddion trist fod ei awyren wedi ei saethu i lawr dros Fôr y Gogledd, a cholli'r criw i gyd. Bu Beti a minnau ar ymweliad ag Ynys Vancouver rai blynyddoedd yn ôl, ond yr oedd hynny cyn newid enw Maes Awyr Comox yn Faes Awyr Cyril Cottingham.
Yn gywir,
Tegwyn Jones, Maes Ceiro,
Bow Street.

## 30 MLYNEDD YN ÔL



Cynhaliodd Clwb Pêl-droed Goginan eu raffl flynyddol yn ddiweddar. Fel arfer yr oedd gwobr arbennig i bwy bynnag fyddai'n gwerthu'r nifer fwyaf o docynnau. Gwerthodd Mr a Mrs Rhys Morgan fwy o lyfrau na neb arall ac yn y llun hwn gwelwn y tîm yn gwylio tra bo Idloes Roberts, Cadeirydd y Clwb, yn cyflwyno eu gwobr i deulu tafarn Maesbangor. Llun: Ian Sant (o'r *Tincer* Ebrill 1986)




### Cwpaned, Cacennau a Cherbydau 4 x 4

I nodi blwyddyn olaf cynhyrchiant y 'Land Rover Defender' yn y DU, mae Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion yn trefnu te prynhawn a thaith Land Rover yn Ffermdy Maesbangor, Capel Bangor, ddydd Sul 24 Ebrill am 2yp. Mae'r Land Rover wedi bod yn un o hoelion wyth y byd amaeth, a bydd yn parhau i wneud cyfraniad allweddol am flynyddoedd i ddod. Ar y dydd, rydym yn gobeithio gweld modelau cynharaf y Land Rover yn ogystal â'r Defender presennol – peidiwch â meddwl bod angen i chi lanhau'ch cerbyd – dewch ag e yn ei gyflwr naturiol.

Dechreua'r daith Land Rover o Ffermdy Maesbangor, Capel Bangor am 2:30yp ac yn cychwyn yn ol tua 3.30yp am te. Codir £20 ar bawb fydd yn dymuno dod â cherbyd 4 x 4, ond bydd y gyrrwr yn cael te prynhawn yn y pris.

Mae'r te prynhawn yn agored i unrhyw un ac nid oes rhaid i chi ddod â Land Rover gyda chi er mwyn manteisio ar de prynhawn fel yr esbonia Delyth Morgan, Fferm Pwll-glas, Llandre, sy'n trefnu'r digwyddiad. Pris y te fydd £12 yr un, ac fe'i weinir gyda gwydraid o Prosecco am ddim. Gofynnir i chi archebu'ch tocynnau ymlaen llaw gan fod lle yn brin.

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar i'n prif noddwr Cambrian Garages, teulu Cwmwythig a phawb arall sydd wedi datgan eu cefnogaeth i'r digwyddiad hwn, a fydd yn codi arian i'r Sioe.

Yn y ffotograff, mae: Vaughan Griffiths, Cadeirydd y Sioe; Martin James, Tal-y-bont; a Delyth Morgan, Ysgrifenyddes y Babell Cynnyrch a Blodau

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Delyth Morgan ar 01970 820656 ynghylch y te prynhawn, neu Vaughan Griffiths ar 01970 820030 ynghylch y daith Land Rover. Mae mwy o wybodaeth ar ein gwefan *www.sioeaberystwyth.com; fb.com/SioeAberystwythShow; @sioe_abershow*

# Llun y mis

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street.
Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/



Eiliadau olaf y machlud- yr Hen Goleg a'r Prom, wedi'i dynnu o lwybr yr arfordir rhwng Clarach a'r Borth.

Porchell
Eich cigydd lleol
PEN-Y-GARN
FFON 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
47 Heol Maengwyn Machynlleth SY20 8EB
Swyddfa'r Ysgubor, Alexandra Rd. Aberystwyth SY23 1LN
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

## CYMANFA GANU UNEDIG GOGLEDD CEREDIGION 2016

**Rihyrsals 7.00**

**Ebrill**

20 Y Morfa

27 Horeb, Penrhyn-coch

**Mai**

4 Seion, Aberystwyth Cymanfa Ganu

8 Seionmm Stryd y Popty, Aberystwyth 10.00 a 5.30
*Arweinydd*: David Griffiths

**Telerau hysbysebu**

Tudalen lawn – £120
Hanner tudalen – £80
Chwarter tudalen – £50
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn – £40 y flwyddyn (10 rhifyn – misol o Fedi i Fehefin; 6-9 mis £4 y rhifyn; llai na 6 mis (h.y. 1-5 mis) £6 y rhifyn. Cysyllter â'r Trysorydd)




Ydy eich plentyn yn mwynhau canu/actio/perfformio?
7 - 12 oed?
Academi Gerdd y lli
Beth am ymuno â'r academi berfformio newydd Aberystwyth a'r Cylch
Cyfres o 6 sesiwn awr am £30 y plentyn.
Dyddiadau: Ebrill 13, 20, 27 Mai 4, 11 ac yn gorffen ar yr 18.
Lleoliad: Neuadd y Penrhyn, Penrhyncoch
Amser: 5.30yh i 6.30yh.
Cysylltwch am ffurflen i archebu lle.
academigyl@gmail.com/www.facebook.com/academigyl
Cyfarwyddwr yr Academi - Gregory Vearey-Roberts

# GOGINAN

### Cofebau Goginan

Bu Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel (War Memorials Trust) yn holi am wybodaeth am y gofeb ryfel oedd yng Ngoginan.

Wel roedd tair yno

**1** Un yng Nghapel (Bedyddwyr) Jezreel. Gweler yn y llun gyflwr presennol y capel sydd ar werth. Fe'i dywyd y ôl o ocsiwn 23 Mawrth. Ym Mehefin fydd yr ocsiwn nesaf. Nid yw'r gofeb i'w gweld bellach ond diolch i Aeronwy James am y wybodaeth isod.

Yng Nghapel (Bedyddwyr) Jezreel.

Ar y mur gyferbyn â'r pulpud, maen gwyn ar gefndir du.

Cof Serch
am
Y Milwyr Canlynnol a
Syrthiasant yn y
Rhyfel Mawr
1914-1918

William John DAVIES.
David OWEN.

Dros Dduw Gwlad a Chenedl.
Eu henwau fyddant fyw yn
oesoesoedd.
A. JONES Salem

Diolch i Gareth Jones am y wybodaeth a'i gydweithrediad am yr isod

**2** Pan gaewyd Ysgol Goginan ym 1968 symudwyd y gofeb oedd yno a'i gosod ar ymyl y ffordd oedd yn cael ei lledu ar y pryd.

**3** Mae y drydedd yn festri y Dyffryn – wedi ei symud o'r capel.

Diddorol yw gweld yr enw A Jones Salem fel gwneuthurwr y gofeb yn y ddau gapel – mae hefyd ar gofebau Ysgol Trefeurig a Madog.


### Gwella

Dymunwn wellhad buan i Morfudd Ingram, Llygad y Glyn, ar ôl triniaeth i gael penglin newydd yn ddiweddar.

i Amber Humphreys, Blaendyffryn, ar ôl damwain car yn ddiweddar.






i Islwyn Jones, TirNaNog, sydd yn Ysbyty Bron-glais fel mae'r Tincer yn mynd i'r wasg.

### Llongyfarchiadau

i Ian a Rose Sant, Raven's Clough, ar ddathlu eu Priodas Aur ar Fawrth 29.

i Gareth a Mair Jones, Coedlan, sydd wedi dathlu Priodas Ddiemwnt eleni yn dawel heb yn wybod i gasglwr clecs *Y Tincer*.

### Ymddeoliad

Mae Dafydd Fryer, Tŷ Melindwr, wedi penderfynu rhoi y gorau i fod yn Gynghorwr Cymuned Melindwr felly mae yna sedd wag ac os oes gan unrhyw un ddiddordeb cysylltwch ag un o'r cynghorwyr lleol

# TREFEURIG

### Cerddorol

Llongyfarchiadau i Betsan Downes, Glanrafon, am basio'i arholiad Piano Gradd 2 gyda chlod.

### Siloa, Capel yr Annibynwyr, Cwmerfyn

Sefydlwyd yr achos yn Siloa gant a hanner o flynyddoedd yn ôl i eleni.

Croeso i chi, nad sy'n aelodau, ymuno â ni ar gyfer un neu fwy o'r oedfaon sy'n weddill, a hynny am ddau o'r gloch y prynhawn.

24 Ebrill
22 Mai
5 Mehefin
10 Gorffennaf (Cymun)
31 Gorffennaf

Bydd Oedfa Gymun a Chwrdd Diolchgarwch ar y 9fed o Hydref – hefyd am ddau y prynhawn.

Dilynwch y Tincer ar Trydar
**@TincerY**



**Priodas**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r Parchg Andrew Loat a'r Parchg Heather Evans ar eu priodas yn Eglwys Padarn Sant, Llanbadarn Fawr, ar Ddydd Sadwrn Ebrill 9fed.

# BOW STREET

## Suliau

**Capel y Garn**
10.00 a 5.00
Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/

*Ebrill*
**24** Gwyn Davies

*Mai*
**1** Lyndon Lloyd
**8** Y Gymanfa Ganu yn Seion Aberystwyth am 10.00 a 5.30
**15** Bugail
**22** Terry Edwards
**29** R W Jones

**Noddfa**
*Mai*
**1** Uno yn y Garn am 10.00
**8** Y Gymanfa am 10.00 a 5.30
**15** Uno yn y Garn am 10.30. Gwasanaeth Cymorth Cristnogol.
**22** Cyfeillach am 10.00
**29** Oedfa Undebol yr Ofalaeth ym Methel, Tal-y-bont, am 10.00

## Diolch

Dymuna Beti a Tegwyn Jones, Maes Ceiro, Bow Street, ddiolch yn fawr iawn am yr holl negeseuon a chyfarchion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur ar Fawrth 31ain, ac y mae Tegwyn hefyd yn hynod ddiolchgar am y llu cardiau a'r rhoddion amrywiol a gwerthfawr a dderbyniodd yntau ar ei ben-blwydd yn bedwar ugain ar Fawrth 19eg.



**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd hapus yn ddwy oed ar 19 Ebrill i Tirion Presacane, Bryncastell, Bow Street.



## Merched y Wawr Rhydypennau

Nos Lun, Mawrth 14eg croesawyd pawb gan ein llywydd Shân Hayward i Grefftau Pennau i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Cafwyd cyfle i sgwrsio wrth fwynhau'r cawl a'r pwdinau hyfryd cyn eistedd nôl gyda phaned a chacen i drafod rhai o faterion y Mudiad. Gwraig wadd y noson oedd Bethan Mair o Bontarddulais. Mae Bethan yn wyneb cyfarwydd i wylwyr Pnawn Da ar S4C ac hefyd fe glywir ei llais yn aml ar Radio Cymru. Bu yn olygydd yng ngwasg Gomer am ddeng mlynedd ac erbyn hyn mae'n gweithio ar ei liwt ei hun yn mwynhau trin geiriau. Dewisodd nifer o gerddi allan o'r gyfrol *Hoff Gerddi Digri Cymru* (Gomer) ac fe gafwyd llawer iawn o hwyl yn gwrando ar y darlleniadau a'r storïau difyr oedd yn atgyfnerthu neges y darnau . Diolchwyd iddi am noson ddifyr iawn gan Marian Beech Hughes. Enillwyd y wobr gudd gan Maria a'r raffl gan Leila.

## Pen blwydd Hapus

Pen blwydd Hapus hwyr i Richard Lewis, 40 Maes Ceiro, ddathlodd ben blwydd arbennig yn 65 oed ar 11 Ebrill. Mae Ela Mai yn edrych ymlaen i dreulio mwy o amser gyda Taid!

## Arddangosfa

Mae Eifion Sven-Myer yn un o 30 artist y gwelir eu gwaith yn Oriel Davies, Y Drenewydd rhwng Ebrill 16 a Mehefin 15.

## Diolch

Dymuna Vernon Jones, Gaerwen,





ddiolch yn fawr am y cyfarchion a'r cardiau niferus a dderbyniodd ar ei ben blwydd yn ddiweddar.

## Gohebu â Tim Peake

Ar y 15fed o Chwefror penderfynodd Owain Hedd Wyn Herron, (6 oed o Bow Street, disgybl yn Ysgol Gynradd Rhydypennau) ysgrifennu at Yr Uwchgapten Tim Peake. Mae Owain wedi dangos diddordeb mawr yn y daith ac antur Tim Peake yn y gofod. Yn ei lythyr holodd Owain

Gofynnodd Owain res o gwestiynau
- Sut oedd y gofodwr? Beth allai weld,

pa mor agos oedd o i'r lleuad? Sut oedd y planedau yn edrych? Oedd hi yn oer - neu gynnes yna? Faint o hyfforddiant gafodd o? Mae Owain yn gynhyrfus iawn wrth ddilyn y daith ar y we. Dymuna yn dda iddo gan obeithio y caiff siwrne saff gartref.

Cafodd Owain ateb hyfryd yn ôl gan Rebecca, gwraig Tim, a'r Ganolfan Dechnoleg Ofod Ewropeaidd. Fe anfonin nhw lythyr a phecyn o bethau gan yr Uwchgapten Peake Roedd Owain yn gyffous iawn ac yn ddiolchgar i gael ymateb. Dymunuad Owain yw i Tim Peake a gweddill y gofodwyr ddychwelyd yn ddiogel i'r ddaear.





**Yr Orsaf Ofod Ryngwladol o dan Praesepe a Gemini (Betelgeuse ar y gwaelod dde) yn croesi o'r dde i'r chwith sm 10.15 nos Sul 10 Chwefror uwchben Llyn Trawsfynydd. Llun: Keith O'Brien trwy ganiatâd.**

# DOLAU

### Marwolaeth

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr Stan Cordery, Rhoshengaer, yn 91 oed; roedd wedi ymgartrefu yn y Dolau gyda'i wraig Ida ers dros 30 mlynedd. Brodor o gyrion Llundain, dyn hawddgar a siriol yn barod iawn ei gymwynas ac yn medru ar sgiliau amrywiol. Mae ffrwyth ei ddwylaw yn dal i'w weld mewn llawer i ardd yn y Dolau o hyd.




**Perchennog newydd**

Dymuniadau gorau i Mei Roberts gymerodd Siop Cigydd Bow Street drosodd ddechrau'r mis. Mae Mei yn wyneb cyfarwydd gan ei fod wedi bod yn gweithio yno ers chwe mlynedd.

Yn frodor o Lanystumdwy - penderfynodd ar ôl graddio mewn ffiseg ym Mhrifysgol Caerdydd - newid cyfeiriad a bu yn chef ym Mhlas Bodegroes, ger Pwllheli. Mae o - gyda'i wraig Rhian a'u merch fach Nesta - yn byw ym Mhenrhyn-coch ac enw y daeth ar ei draws wrth ddarllen stori i Nesta fydd enw newydd y siop - Porchell. (sef mochyn sugno / mochyn bach - sucking pig neu piglet yn Saesneg). Mae cig a chynnyrch y siop ar gael yn Garej Penrhyn-coch, Spar Bow Street a NISA Y Borth yn ogystal ag yn y siop ei hun ac ar ddyddiau Mercher daw eu fan oddi amgylch Penrhyn-coch, Bont-goch, Tal-y-bont, Tre'r-ddôl, Llanilar, Capel Seion, Pisgah, Aber-ffrwd, Cwmrheidol, Capel Bangor a Phonterwyd. Mae'n dda gweld y Gymraeg yn cael ei pharchu gydag arwyddionn dwyieithog yn y siop. Pob hwyl iddo wrth y fenter. Gellir ei ddilyn ar eu tudalen Facebook.

Pa gigoedd sydd yn well
na blasu cigoedd PORCHELL

# MADOG

### Madog

**2.00**

*Ebrill*

**24** Gwyn Davies

*Mai*

**1** Lyndon Lloyd
**8** Y Gymanfa Ganu yn Seion, Aberystwyth
**15** Bugail
**22** Terry Edwards
**29** R W Jones

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Myfanwy Pugh, Fron Ddewi a theulu'r Fronfraith ar farwolaeth perthynas – Jane George, Pen Wern, New Cross.

### Yn gwella

Braf yw deall fod Catherine Thomas, Brynheulog yn gwella ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.



Iwan Chambers a Huw Meredydd yn derbyn tystysgrif ASDAN aur ar ôl cwblhau 5 uned yn llwyddiannus o fewn y rhaglen her pontio.

Daeth Huw hefyd yn 1af mewn Gwaith creadigol 3D Bl 7 8 a 9 A A (D) a 3ydd mewn Gwaith creadigol 2D Bl 7 8 a 9 A A (D) yn Eisteddfod Ranbarthol yr Urdd. Bydd ei waith yn mynd drwodd nawr i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Fflint.

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

### Suliau

*Ebrill*

**24** 10.00 Rhidian Griffiths

*Mai*

**1** 10.00 Bugail
**8** Y Gymanfa Ganu yn Seion, Aberystwyth
**15** Judith Morris - Unedig yn Dyffryn
**22** 10.00 Rhidian Griffiths
**29** 10.00 Terry Edwards

### Y Tincer ar werth

Diolch yn fawr iawn i Mark Evans, Exchange am werthu Y Tincer dros y blynyddau diwethaf ond o hyn ymlaen yn Siop y Pentre gyda Melanie fydd Y Tincer ar gael o'r mis yma.

### Merched y Wawr Melindwr

Daeth 19 o aelodau at ei gilydd nos Fawrth 5ed Ebrill. Croesawyd ni gan ein Llywydd, Delyth Davies, cyn derbyn ymddiheuriadau oddi wrth bedwar o'n haelodau. Darllenwyd cofnodion y ddau gyfarfod diwethaf cyn mynd ymlaen i drafod ychydig o fusnes y Mudiad. Cafodd ein gwraig wadd, Mrs Glenys Morgan, groeso cynnes hefyd gan ein Llywydd. Mae Glenys yn cystadlu yn llwyddiannus yn lleol ac yn Genedlaethol ac yn dysgu trefnu blodau erbyn hyn trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg a Chanolfan Dysgu Bro.

Agorwyd ein llygaid wrth weld pob trefniant yn datblygu gyda sawl tric sut i droi deilen ac agor blodau caeëdig yn cael ei ddefnyddio.

Angharad Jones gafodd y fraint o gynnig diolchiadau am noswaith ddiddorol a dymunol dros ben. Tra bod y tegell yn berwi cafodd pawb gyfle i weld ei gwaith yn fwy agos.Cafwyd cyfle ychwanegol i ennill y 5 trefniant heblaw y wobr fisol gyda pob un yn falch i'w ennill. Eirwen Sedgewick a Lis Collison oedd yng ngofal y lluniaeth a'r raffl.

Yn y llun gwelir Mrs Glenys Morgan yn arddangos y pump trefniant.

### Cylch Meithrin Pen-llwyn

Cafodd plant y Cylch wybod am waith milfeddyg diolch i Glesni Arfon-Powell a Nerys Daniel o Feddygfa Milfeddygon Ystwyth yn ddiweddar. Dyma Glesni yn dangos sut mae gwneud archwiliad o anifail sal a rhwymo ambell ddarn a cafodd Manon ei wisgo yn barod am syrjeri a chwarae rhan milfeddyg go iawn.





Yn parhau y thema o 'anifeiliaid sydd yn ein helpu ni' bu'r plant ar daith i Ganolfan Marchogaeth Rheidol a chael dysgu sut i edrych ar ôl ceffylau a chael siawns i'w marchogaeth nhw. Dyma Gryffydd y joci a Hanna a Jac yn rhoi brws i Harry y ceffyl.





Ac i gloi y tymor cawsom hwyl arbennig yn ein Helfa Wyau flynyddol a gynhaliwyd yn Ysgol Mynach y tro hwn ar Sul, 20fed Mawrth. Codwyd yn agos i £490 diolch i haelioni a chefnogaeth ein rhieni, pobl yr ardal a'n noddwyr ar gyfer y raffl - sef, Statkraft, Morrisons, Siop y Pentref Exchange Stores Capel Bangor, Rheidol Riding Centre, Vale of Rheidol, Tynllidiart Arms, Siocled Sarah Bunton, Caryl Lewis a Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Diolch i chi i gyd ac wrth gwrs Mrs Bethan James am ein croesawu i Ysgol Mynach.



Os oes unrhyw un am ymweld y Cylch neu am ragor o wybodaeth cysylltwch â cmpenllwyn@gmail.com.

### Pwyllgor Neuadd Pen-llwyn

Mae angen aelodau newydd i'r uchod. Os gwelwch eich ffordd yn glir, ac unrhyw ddiddordeb yn y Neuadd Bentref, dowch i'r cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir ar y seithfed ar hugain o Ebrill am 8 o'r gloch. Mae eich angen arnom, ac yn siwr cewch groeso cynnes iawn.

### Trychineb Erchyll

Syfrdanwyd ardal gyfan, am drychineb dorcalonus, a ddigwyddodd ar ddydd Gwener y Groglith. Damwain ar y ffordd rhwng Llangurig a Rhaeadr, a gymerodd fywyd Margretta Jones, Cwmberllan, gynt o fferm Tyllwyd a'i ŵyr bach Ned, pum mlwydd oed, un o'i thrysorau.

Nid byth y mae'r pentref yn cofio digwyddiad mor drist, a gyffyrddodd a chalonnau pob un yn y gymuned. Mae'n wir dweud, fod ardal gyfan yn galaru, ac yn sylweddoli nad oedd geiriau yn medru lleddfu dim ar y boen, oedd y teulu annwyl hwn yn dioddef.

Meddyliwn amdanynt yn eu hiraeth a'u trallod, y rhieni Bleddyn a Sharon, y brodyr bach Tomi a Cai, â'r cysylltiadau oll.

Cydymdeimlwn â Bleddyn a'r brodyr eraill a'u teuluoedd, Owen, David a Rhydian, wedi colli mam yn ogystal, Gweddiwn, bod Duw yn agos, ac yn rhoddi iddynt nerth, a phob bendith yn eu galar, i fedru wynebu yr wythnosau nesaf, ac yn wir y dyfodol.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Anne a Maldwyn James, Afallon, ar farwolaeth Manod Rees – brawd Anne – o Ddinbych.

ac â theulu Gladys Jones, Maes Rheidol, fu farw ym Mhen-bre.

Cydymdeimlwn â Sandra ac â Shirley a David Harris a'r teulu.

### Pen blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Ieuan Evans, Rhiwarthen Isaf, ar ei ben blwydd yn ddeunaw oed. Gobeithio y cei di dy



ddymuniad i fynd i Goleg Harper Adams. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol.

### Siop y Pentref

O'r diwedd mae gennym siop yn y pentref, ar ôl 23 o flynyddoedd. Agorwyd yr "Exchange Stores" ar y trydydd ar hugain o Fawrth, pryd daeth trigolion y pentref ynghyd, i'r agoriad gan y Cynghorwr Rhodri Davies.

Melanie a Daniel Hughes yw y deiliaid, a llongyfarchiadau mawr iddynt, a dymuniadau gorau am bob rhwyddineb yn y fenter newydd.

Mae y rholion brecwast, meddent, yn ffefryn gan yrrwyr y loriau, a'r bobl leol yn ogystal. Da yw clywed fod y siop yn gwerthu cynnyrch lleol hefyd. Mae y plant wrth eu boddau, i gael prynu hufen ia Conti.

Felly cefnogwch eich siop leol. Cewch groeso,gan Mel a Daniel, byddant yn falch eich gweld. Yn sicr, bydd siopa yn yr "Exchange" yn le i gwrdd â thrigolion y pentref.

### Llwyddiant Cerddorol

Bu disgyblion a gaiff eu hyfforddi ar y piano gan Mrs. Barbara Hogger yng Nghapel Bangor yn llwyddiannus yn arholiadau Bwrdd Cysylltiol yr Ysgolion Cerdd Brenhinol a gynhaliwyd yng Nghapel y Garn, Bow Street yn ddiweddar.

Derbyniodd Martha Rowlands ac Eluned Troughton ganlyniadau ardderchog yn eu harholiadau lefelau dechreuol.

Gwnaeth y rhain yn dda iawn hefyd - Charles Kularatne Gradd 2; Haf Evans a Rhys James Gradd 3; a Caryl Leyshon Gradd 4. Diweddglo ardderchog i'r holl waith caled o ymarfer cyson. Llongyfarchiadau i chi i gyd.



# AR LAN Y LERI

Mae'n bleser gennym eich gwahodd i Noson

**Gymdeithasol: Siop Siarad**
**Yng Nghapel y Babell, Dol-y-bont**
**Am 7.30 y 28ed o Ebrill**

I rannu paned a cacen, gwrando ar gerddoriaeth a chasglu straeon.

Mae Gwilym Morus Baird a Jane Lloyd Francis yn creu siwrnai lawr yr Afon Leri, i'w adrodd drwy gerddoriaeth, barddoniaeth a rhyddiaith. Mae angen eich straeon arnom – am yr afon, ei ffynonellau, isafonydd, llifogydd, trolifogydd ac amgylchiadau – i'w gwau i mewn i'r gwaith hwn.

Gall y straeon ddod o'r gorffennol neu arwain at y dyfodol, bod yn bersonol, chwedlonol neu wedi eu dyfeisio. Gwahoddir gwesteion hyddysg arbennig i helpu sbarduno ac ysbrydoli ein trafodaethau.

Mae popeth yn ymwneud â dŵr.
Ymunwch â ni os rydych yn gallu.
Am fwy o wybodaeth, ewch at **www.cymerau.org**



Gregory Vearey-Roberts, Efan Williams a Rheinallt Jones yn cynrychioli Cymru yn yr Ŵyl Ban Geltaidd ac yn ennill y wobr 1af yng nghystadleuaeth y grwpiau gwerin.

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?
Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys; cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:

Dysgu Bro Ceredigion Community Learning

01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk

# Llythyrau

Annwyl Olygydd,
Braf ydoedd clywed am agor Canolfan Gymraeg yng Nghaerdydd. O'r diwedd! Dylai hon wneud byd o wahaniaeth i Gymry'r Brifddinas, boed yn siaradwyr Cymraeg neu yn ddysgwyr. Adeilad amlbwrpas ar gyfer pobl o bob oed.

Fel yr athrawes gyntaf a fu'n gweithio yn yr Andes o dan y Cynllun Dysgu Cymraeg ga i ddweud mor falch y mae 'Cymry' Esquel o'u Canolfan hwythau. Pan gyrhaeddais i yno ym 1997 yr unig gyfle gaent i gymdeithasu oedd ar y Sul, a hynny ond yn achlysurol, gan mai dim ond rhyw bedair neu bum gwaith y flwyddyn yr agorai capel Seion ei ddrysau! Buan y newidiodd pethau ar ôl i mi gyrraedd oherwydd wrth dderbyn arweiniad bu yno addoli cyson. Gwelais, er hynny, nad oedd gan yr Archentwyr hyn o dras Cymreig fodd i gwrdd â'i gilydd, i fwynhau nosweithiau llawen, i gynnal twmpath, i baratoi ar gyfer yr eisteddfodau nac i wylio'r tapiau fideo y byddent yn eu derbyn yn rheolaidd gan garedigion o Gymru. Codi Canolfan oedd yr unig beth amdani!
Dyma fynd ati i 'werthu brics' ar eu rhan - punt y fricsen! Yn Eisteddfod Pen-y-bont ar Ogwr ym 1998 i ddechrau ac yna yn Eisteddfod Môn, Llanelli a Thyddewi. Llythyru papurau bro, cymdeithasau o bob math, clybiau cinio a chorau. Derbyn rhoddion gan unigolion ledled Cymru. Trosglwyddo'r symiau arian gan gynnwys pob ffi am annerch hwnt ac yma i ofal pobl gyfrifol yn Esquel. Digon o bres i osod y sylfaen i ddechrau, gefngefn â'r capel, ac ymlaen nes bod digon i godi Canolfan braf a hynny gyda chydweithrediad y bobl draw heb anghofio'r gefnogaeth a gafwyd gan lywodraeth y Dalaith.

Llwyddwyd i agor y Ganolfan ym mis Mawrth 2002 ac erbyn hyn mae wedi agor ei drysau i gannoedd o ymwelwyr o Gymru ac wedi paratoi gwledd o fwyd ar eu cyfer. Ond nid croesawu ymwelwyr yn unig yw amcan y Ganolfan. Mae'r adeilad ar agor yn ddyddiol er mwyn cynnal dosbarthiadau Cymraeg i siaradwyr a dysgwyr o bob oed a chefndir. Ceir cegin fach yno lle bydd y tegell bob amser yn mudferwi ar gyfer cymryd tot o FATE! Yn y Ganolfan mae'r llyfrgell a'r ffilmgell. Dyma lle bydd y plant yn eistedd wrth draed eu hathrawon a'r bobl ifainc, trwy weithgareddau Menter Patagonia, yn cynnal twmpath ac yn cael hwyl ar actio a choginio.

Dim rhagor o orfod llogi ystafell yma ac acw a neb yn gwybod yn union beth oedd yn digwydd.

Dim o'r fath oherwydd mae gan Gymry Esquel, bellach, eu haelwyd eu hunain.

Â'r adeilad bron â bod yn 14 oed mae galw am estyniad. Mae galw am ddwy ystafell ddosbarth, am swyddfa fechan, am 'departamento' ar gyfer yr athrawon a ddaw o Gymru ac i'r gwirfoddolwyr fydd yn cynnig eu gwasanaeth yn eu tro. Mae'r estyniad newydd ar ei hanner a does fawr o obaith cwblhau'r gwaith heb gymorth ariannol o Gymru. Derbyniwyd swm o arian tuag at y prosiect gan lywodraeth y Dalaith, ond mae hwn eisoes wedi'i wario! Disgynnodd y 'peso' yn ei werth ac mae costau byw ar ôl i'r llywodraeth newydd ddod i fod wedi mwy na dyblu.

Dyma fi, felly, unwaith eto yn cymryd y cyfrifoldeb o ofyn am gyfraniadau gan sefydliadau a chymdeithasau ac unigolion. Gwn fod galwadau lu arnom yng Nghymru y dyddiau hyn, ond os oes rhywun yn teimlo ar ei galon y gall gyfrannu swm o arian, boed fach neu fawr, a fyddwch mor garedig, os gwelwch yn dda, â chysylltu â mi. Mae cyfrif yn dal i fod ym Manc Lloyds, Rhydaman yn dwyn yr enw 'CANOLFAN GYMRAEG YR ANDES.'

Yr eiddoch yn gywir,
Hazel Charles Evans,
Llais yr Andes,
Llandybïe,
Rhydaman
SA18 2TH

Annwyl Olygydd,
Ar 30 Mawrth eleni fe ddaeth y set cyntaf o safonau'r Gymraeg yn weithredol. Y safonau hyn sy'n dweud beth ddylai sefydliadau ei wneud yn Gymraeg.

Mae'r safonau'n creu hawliau newydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Cynghorau sir, Llywodraeth Cymru a'r parciau cenedlaethol yw'r sefydliadau cyntaf i weithredu'r safonau. Dros amser fe fyddant yn cael eu cyflwyno i sefydliadau a sectorau eraill, mewn meysydd fel iechyd, addysg ôl-16, trafnidiaeth cyhoeddus, ynni, gwasanaethau post, tai cymdeithasol, telegyfathrebu a llawer mwy.

Mae safonau'n seiliedig ar gyfraith gwlad; ac mae dyletswydd ar sefydliadau i gydymffurfio â nhw. Dylent roi ffydd i chi y gallwch ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau sy'n gweithredu safonau. Os nad ydych wedi gallu derbyn gwasanaeth Cymraeg boddhaol ganddynt, cysylltwch â mi i gwyno.

I ddysgu mwy am eich hawliau ewch i'r dudalen 'Hawliau i Ddefnyddio'r Gymraeg' ar wefan **comisiynyddygymraeg.cymru** a dilyn a defnyddio #hawliau ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Mae croeso i chi hefyd gysylltu â ni ar y ffôn neu'n ysgrifenedig (manylion islaw).

Os ydych yn ysgrifennydd neu'n drefnydd grŵp neu fudiad cymunedol ac yn dymuno fy mod i neu un o'm swyddogion yn dod i siarad am eich hawliau iaith, yna mae croeso mawr i chi gysylltu ac fe drefnwn ymweliad.
Yn gywir,
**Meri Huws**

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad,
5-7 Heol Eglwys Fair,
Caerdydd,
CF10 1AT
post@comisiynyddygymraeg.cymru /
0845 6033221

## CLWB CYFEILLION Y TINCER

Hoffech chi gynorthwyo y Tincer ac wrth wneud hynny gael y siawns i ennill gwobrau misol.
Beth am ymuno â Chlwb Cyfeillion y Tincer. £10 y flwyddyn. Cysylltwch â'r Trefnydd, Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan. 01970 880228

# Ffarwel Emyr



Mae fel ddoe pan gynhaliwyd cyfarfod ffarwelio i Alun John fel pennaeth Ysgol Penrhyn-coch a chroesawu y pennaeth newydd Emyr Pugh-Evans. Ond mae 14 mlynedd ers hynny! Sut mae mesur amser? Wel y ffordd orau yw edrych ar blant yn tyfu. Wrth groesawu y Pennaeth newydd yn *y Tincer* mae nodyn yn croesawu plant i'r Dosbarth Derbyn – Angharad Davies, Lisa Evans, Mared Pugh-Evans, Wil Galbraith, Jac Horwood, Manon Izri, Josie Richards a Tom Smith i'r Dosbarth Derbyn ac Efan Johnson i Ddosbarth Un. Mae y rheiny erbyn heddiw unai wedi gorffen neu yn gorffen blwyddyn 13 eleni. A dyna y cyfnod y bu Emyr yn bennaeth. Roedd yr ysgol yn dal ar y pryd yn adeilad newydd 1963 ac roedd Ysgol Trefeurig ar agor.

Nid oedd yr ardal yn ddieithr i Emyr gan mai un o fechgyn Bow Street ydy o – cyn-ddisgybl o Ysgol Rhydypennau aeth ymlaen i Ysgol Penweddig ac i wneud gradd mewn cerddoriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yno y cyfarfu â Heddwen o Drawsfynydd – oedd hefyd yn dilyn cwrs cerddoriaeth.

Ar ôl gwneud ymarfer dysgu bu'n dysgu ym Mhontrhydfendigaid a Cross Inn cyn dod yn bennaeth Llanfihangel-y-Creuddyn ac oddi yno y'i penodwyd i Benrhyn-coch.

Bu'n gyfnod llawn prysurdeb ac mae yr ysgol wedi tyfu i adeilad newydd (agorwyd Medi 2005). Gwelwyd ar hyd y blynyddoedd enw yr Ysgol yn cystadlu ac ennill yn Steddfodau yr Urdd, Gŵyl Chwaraeon yr Urdd, Sioeau Llanelwedd, Aberystwyth a Phenrhyn-coch; buont yn ffyddlon iawn i Eisteddfod Penrhyn-coch ac mae atgofion melys o'r ymweliadau i ganu a'r profiad o fod yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Fawr o syndod o gofio i Emyr ei hun fod â chymaint o ddiddordeb mewn cerddoriaeth (canu mewn corau, cystadlu ar y trombôn, Cerddorfa Ceredigion, Cerddorfa Ieuenctid Genedlaethol Cymru, Ensemble Pres Prydain Fawr ac yn ddiweddar Aber Jazz) a chwaraeon (mae wedi ei gymhwyso fel dyfarnwr, mae'n dilyn Penrhyn-coch a Lerpwl).

Mae gan pawb ei atgofion ei hun ond ymhlith y rheiny mae – mynd a'r plant i gem bêl-droed Hwngari v Cymru – a chael syrpreis fod Mr Evans yn chwarae yn y band!! Cyhoeddi rhifynnau *Pytiau o Ysgol Penrhyn*; sawl calendr; ymweliadi gystadlu â Gŵyl Gerdd Dant – Rhosllannerchrugog ac Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 ac ym Medi 2013 – Dathliadau 150 yr ysgol,




Ar ôl 25 mlynedd yng Ngheredigion mae yn symud i fro hollol wahanol – ond fel mae'n digwydd roedd teulu ei dad yn enedigol o Tylorstown yn y 'cwm nesaf' – Rhondda. Mae enw Abercynon yn gyfarwydd i bawb sydd yn dreifio i lawr am Gaerdydd ar hyd yr A470 a mynd ar gylchfan Abercynon. Lawr y ffordd mae Rhys ym Mhontypridd yn dilyn cwrs fforensig heddlu a gobeithia Mared gyrraedd Coleg Cerdd a Drama ym Medi. Diolch i Emyr am bopeth a dymuniadau gorau iddynt fel teulu yng nghymoedd Morgannwg.

Fel rhiant ac fel llywodraethwr ac yn ddiweddar Cadeirydd y Corff Llywodraethol cefais y pleser o ddod i adnabod a gweithio gydag Emyr dros nifer o flynyddoedd. Deuthum i'w adnabod fel pennaeth rhagorol, gweithgar ac ymroddedig ac fel ffrind. Ar ran Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymunedol Penrhyn-coch, dymunaf i Emyr lwc dda i'r dyfodol. **Chris Wilson**

Bûm yn cydweithio ag Emyr am nifer o flynyddoedd, fel Llywodraethwr a Chadeirydd y Corff Llywodraethol. Bûm yn dyst i'w waith caled a'i ymroddiad llwyr i'r ysgol, a hynny weithiau o dan amodau digon heriol, er enghraifft pan oedd yr ysgol fel safle adeiladu, ac wrth gwrs pan fyddai Estyn yn curo ar y drws i arolygu. Bu Hanna a Huw, ein plant ni, yn hapus iawn yn Ysgol Penrhyn-coch, ac yno fe gawson nhw'r cychwyn gorau ar eu gyrfa addysgol. Pob dymuniad da i Emyr a'r teulu yn Abercynon.
**Sion Meredith**

Rwyf wedi adnabod Emyr ers ein dyddiau ysgol ym Mhenweddig ond buom mewn cyswllt agosach ers i fy nhri mab fynychu Ysgol Penrhyn-coch rhwng 2003 a 2015. Yn ystod yr amser yma, roeddwn i hefyd yn Riant Lywodraethwr yn yr Ysgol ac felly yn gallu gwerthfawrogi'n llawn yr ymdrech yr âi Emyr iddo'n flynyddol i wneud y profiad ym Mhenrhyn-coch yn un mor arbennig i'r disgyblion a'u teuluoedd. Roedd hyn yn wir yn arbennig ym meysydd celf a chrefft, pan fyddai pob plentyn yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn eisteddfodau gan chwarae rhan bwysig, boed fach neu fawr, yn llwyddiannau yr ysgol ar hyd y blynyddoedd.

Mae'n amlwg nad Emyr yn unig oedd yn gyfrifol am y llwyddiannau yma ond mae yn reolwr da ar bobl, yn gallu dod a'r gorau allan o'i gydweithwyr ac mae'r ysgol wedi elwa yn fawr o hyn. Bydd cyfraniad Emyr i Benrhyn-coch – yr ysgol a'r pentref – i'w deimlo am flynyddoedd i ddod. Dymunaf iddo y gorau yn ei sialens newydd yn ne Cymru.
**Geraint Edwards Cadeirydd Llywodraethwyr** Hydref 2012 i Hydref 2014

# PENRHYN-COCH

**Horeb**

*Ebrill*

**24** 10.30 Ysgol Sul - festri
Oedfa bregeth - capel Arawn Glyn

*Mai*

**1** 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
**8** 10.00 a 5.30 Cymanfa Ganu Seion Stryd y Popty
**15** 10.30 Clwb Sul
2.30 Matthew Rees Oedfa bregethu
**22** 10.30 Clwb Sul gyda S Ioan yn S Ioan Pererindod – Bro Ann Griffiths Manylion gan Ceris
**29** 2.30 Uno ym Methel - Y Parchg Wyn Morris

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 27 Ebrill, 11 a 25 Mai. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Eglwys St Ioan**

Cynhelir festri flynyddol Eglwys St Ioan nos Iau 21 Ebrill am 7.00 yn Neuadd yr Eglwys.

**Merched y Wawr Penrhyn-coch**

Nos Iau, 10fed o Fawrth, fe groesawodd ein Llywydd, Glenys Morgan, bawb i'r cyfarfod. Noson i ddathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni rhai o ddysgwyr yr ardal. Hefyd wedi dod atom roedd Ada Evans, Llywydd Rhanbarth Ceredigion, ac hefyd y Parchedig Andrew Loat, y Ficer lleol. Ar ôl y croeso fe eisteddodd pawb i lawr i fwynhau cawl a chwpanaid. Traddodwyd y fendith gan Mairwen. Yna fe aeth y noson ymlaen yng nghwmni ein gŵr gwadd, sef Jel Danks o Aberystwyth. Yr oedd wedi symud i fyw yn Aber ym 1971 ac wedi dysgu Cymraeg, ac yn gweithio yn Amgueddfa Ceredigion. Yn wreiddiol o Swydd Warwick, mae yn hoff o fynd o amgylch gwahanol fudiadau i'w diddori, chwarae ei feiolin a chanu. Fe ganodd amryw ganeuon Cymraeg i ni ac fe roddodd dipyn o'i hanes ac adrodd rhai storiau a wnaeth i bawb chwerthin. Noson wych arall. Diolchodd Mair Evans i bawb. Trafodwyd tipyn o fusnes arferol y gangen ar ddiwedd y noson.

**Loto Clwb Pêl-Droed Penrhyn-coch**

Cyfle i ennill £6,000. Tynnir y Loto bob bythefnos. Tocynnau yn £1 y tro. Dewiswch 4 rhif o 1 i 24, ac os ydynt yn cyd-fynd â'r 4 rhif a dynnir - chi pia'r Jacpot. 3 rhif yn gywir - a chewch £5. Tynnir y rhif nesaf Sul 17 Ebrill. Tocynnau ar gael o'r Swyddfa Bost a'r Clwb.

**Pen blwydd arbennig**

Dymuniadau gorau a phen blwydd hapus i Connie Evans, Gwawrfryn a fu yn dathlu ei phen blwydd yn 80 oed ar yr ail o Ebrill.

**Pen blwyddi priodas arbennig**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Dr Wadad ac Irfon Williams, Tebeldy, Cae Mawr, a fu yn dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol ar yr ail o Ebrill.

ac i Robert a Gillian Dobson, Cae Mawr, oedd yn dathlu priodas ruddem ar y10fed o Ebrill.

**Cartref Newydd**

Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i Carys a Geraint Jenkins, a'r bechgyn yn eu cartref newydd, Yr Efail, Penrhyn-coch.

**Cydymdeimlad**

Ein cydymdeimlad dwys â theulu y ddiweddar Glenys Thomas a David John Edwards, brawd a chwaer a fu farw o fewn pythefnos i'w gilydd. Cafodd y ddau eu geni a'u magu yn Corner House ar y sgwâr yn y Penrhyn, Tai Bach sydd wedi eu dymchwel bellach.

Cydymdeimlwn â Gwyn a Jackie James a'r teulu ar farwolaeth tad Gwyn – Eirwyn James, Waunfawr ar Ebrill 3ydd.

**I Glenys Er Cof**

Cofion melus am yr hyn a fu
Yng nghwmni'n gilydd yn cael hwyl a sbri
Buost yn wraig, yn fam, mam-gu a hen fam-gu
Ac yn gefen bob amser i'th annwyl deulu
Ond rwyt bellach – y ti a'th frawd Defi –
Yn gorffwys yn dawel ym mreichiau yr Iesu. **M.J. (Ffrind)**

**Geni ŵyr**

Llongyfarchiadau i Gwenan a David Price, Dolmaeseilo ar ddod yn fam-gu a tad-cu - ganwyd mab - Benjamin Lucas Rhys Price ar Fawrth 24ain i Alun a Sam.

**Eglwys Sant Ioan**

Yn dilyn traddodiad bu'r Garawys yn gyfnod o ddefosiwn a dysgu i blwyfolion Eglwys S. Ioan, Penrhyn-coch. Cynhaliwyd Cymun Bendigaid yn wythnosol bob bore Iau a chyda'r hwyr ar yr un diwrnod dilynwyd Ffordd y Groes yng ngwasanaeth yr Hwyrol weddi. Yn ogystal cyfarfu criw ffyddlon yn y Ficerdy yn wythnosol i astudio prif elfennau'r ffydd Gristnogol — bedydd, Beibl, y Cymun Bendigaid a gweddi. Gwnaed hynny gan ddilyn amlinelliad cyn-Archesgob Cymru, Rowan Williams, yn ei lyfr . Mae darllen ei waith yn waith caled ar brydiau, ond gwaith yw sy'n dwyn ffrwyth wrth ddyfnhau dealltwriaeth o'r ffydd a rhannu profiad.



**Priodas**

Llongyfarchiadau i Philip Ralphs a Sally Greene ar eu priodas dydd Sadwr Ebrill 2il ar Stad Ymddiriedolaeth yr Hafod, ger Pont-rhyd-y-groes. Pob hwyl iddynt ar eu mis mêl ym mis Mai yn County Mayo, Iwerddon. Maent wedi cartrefu yng Nghwmrheidol,







Cynhaliwyd nifer o wasanaethau a gweithgareddau yn ystod yr Wythnos Fawr gan ddechrau gyda gorymdaith y Palmwydd a Litwrgi'r Dioddefaint fore Sul y Blodau. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid ddydd Iau Cablyd ac ar brynhawn dydd Gwener y Groglith cafwyd gwasanaeth o weddïau ac emynau.

Ddydd Sadwrn, noswyl y Pasg, cynhaliwyd Llanllanast y Pasg yn Neuadd yr Eglwys ynghyd â chyfeillion o Gapel Horeb ac Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor. Daeth nifer o deuluoedd ynghyd ar gyfer cyfres o weithgareddau ar thema'r Pasg a'r Atgyfodiad. Daeth y sesiwn i ben gyda helfa wyau a chyfle i fwynhau paned a byns y Groglith.

Ar fore'r Pasg arweinwyd gwasanaeth y Cymun Bendigaid gan y Barchg Enid Morgan gyda chymorth y curad, y Parchg Lyn Dafis. Yn y gwasanaeth hwn goleuwyd y Gannwyll Basg newydd wrth i'r gynulleidfa ddathlu fod goleuni Crist yn llewyrchu mewn bywyd newydd.

### Eisteddfod

Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch nos Wener 22 Ebrill am 5.30 (cystadleuwyr lleol) a dydd Sadwrn 23 Ebrill am 1.00 a 5.30. Y beirniaid fydd : nos Wener – Geraint Thomas, Rhydyfelin (cerdd); Meleri Morgan, Bwlch-llan (Llefaru). Dydd Sadwrn: Odette Jones, Mynwet y Crynwyr, Merthyr Tudful (Cerdd); Esyllt Tudur Adair (Llefaru a llenyddiaeth) a'r Llywyddion – Carys Jenkins, Penrhyn-coch (Nos Wener); Bethan Davies, Llandysul (Pnawn Sadwrn) a Dr Zoe Morris-Williams, Caerdydd (Nos Sadwrn). Bu cystadlu brwd ar y cystadlaethau llenyddol – gyda 21 cerdd yn dod i mewn ar gystadleuaeth y gadair a roddir - ynghyd â'r wobr ariannol eleni gan Rhian Huws a theulu y diweddar Dr Dafydd Huws, Mynydd Gorddu a Chaerffili. Fe'i gwnaethpwyd gan hen ffrind i Dafydd a Rhian o goed a fu'n tyfu ar eu tir yng Nghaerffili. Bydd seremoni y Cadeirio tua 8 o'r gloch a'r corau i ddilyn yn fuan ar ôl hynny.

Gwobrwyir Tlws yr Ifanc – a roddir eleni eto – gan Aaron ac Ashley Stephens, Glan Seilo – ar y nos Wener. Testun llenyddol sydd eleni – stori fer "Tro trwstan".



Ar ddydd Mercher 13eg o Ebrill dechreuodd fenter newydd Dan ofal Gregory Vearey-Roberts, sef Academi Gerdd y lli! Cafwyd sesiwn gyntaf arbennig gyda'r plant yn mwynhau gweithgareddau actio a chanu! Mae'r Academi Yn edrych ymlaen at weithgareddau cyffrous o'i blaenau felly cadwch lygaid allan am y newydd I ddod! Os hoffech gysylltu â'r Academi Gerdd y lli e-bostiwch academigyl@gmail.com.

### Mrs Glenys Thomas, Cwmfelin, Penrhyn-coch

*Caredig a chymwynasgar ydoedd,*
*hoff o'i thŷ, mam berffaith oedd.*

Gyda thristwch y clywsom y newydd am farwolaeth ddisymwth Mrs Glenys Thomas, Cwmfelin, Penrhyn-coch ar 26 Chwefror, yn 82 mlwydd oed.

Ganed a maged Glenys ym Mhenrhyn-coch, yn ferch i Florence a Jac Edwards ac yn chwaer i David John. Mynychodd ysgol y pentre ac yna, Ysgol Ramadeg Ardwyn. Priodwyd hi â Henry ym Methel, Aberystwyth yn 1952 a bu 2012 yn garreg filltir arbennig i'r ddau ohonynt gan iddynt ddathlu 60 o flynyddoedd priodasol dedwydd. Ar ôl priodi bu'r teulu'n byw yn Arosfa, Maes Seilo a Glanffrwd, cyn codi'r byngalo, Cwmfelin, yn 1996. Ganed iddynt dri o blant, sef Sandra, Bethan a Phillip. Roedd Glenys yn ymfalchio'n fawr yn y plant, yr wyrion a'r gor-wyrion a châi pob un ohonynt groeso cynnes yn eu tro ar yr aelwyd yng Nghwmfelin.

Yn ystod ei bywyd bu Glenys yn gweithio mewn sawl lle gwahanol: siop lyfrau Jac Edwards yn y dref, y coleg, y Co-op a siop Fosters. Bu hefyd yn gweithio fel cynorthwy-ydd yn y cartref ac fel gofalydd gyda Mrs Connie Evans, wrth iddynt gludo plant ag anghenion arbennig mewn tacsi i wahanol ysgolion.

Roedd Glenys yn wraig gymdeithasol iawn, yn hoff o fynychu'r *whist drives* ac yn hynod gefnogol i weithgaredd y pentref a'r capel. Bu'n dosbarthu'r *Tincer* ac yn casglu'n ddiwyd ar gyfer Sioe Penrhyn-coch. Uwchlaw pobeth roedd Glenys yn wraig y teulu ac wrth ei bodd yn mwynhau'u cwmni. Gwelir ei heisiau'n fawr a chydymdeimlwn yn ddwys â Henry, Sandra, Bethan a Philip a'u teuluoedd yn eu hiraeth a'u galar.

Cynhaliwyd yr angladd yn Horeb ar 9 Mawrth, a gwasanaethwyd gan y Parchedigion Judith Morris, Peter M Thomas a Wyn Morris.

### Mr David John Edwards, Y Felin, Penrhyn-coch

Ei nef fu cwmni defaid – a rhannu
cyfrifon bugeiliaid,
Difyr oedd ond mynd fu rhaid
I gôl un-Bugail enaid.

Ar 15 Mawrth 2016, rhyw bythefnos ar ôl marwolaeth ei chwaer, y ddiweddar Mrs Glenys Thomas, bu farw David John Edwards, Y Felin, Penrhyn-coch, yn 84 mlwydd oed.

Ganed Dei yn Corner House, Penrhyn-coch, yn fab i Jac a Florence Edwards ac yn frawd i Glenys. Mynychodd yr ysgol ym Mhenrhyn-coch ac yna bu'n gwasnaethu am gyfnod byr ar fferm Llwyngronw cyn symud i weithio ar fferm Glanrafon. Treuliodd dros hanner can mlynedd yn Glanrafon lle magodd ddiddordeb brwd mewn defaid a cheffylau. Bu'n ffermio ar hyd ei oes ac ym mis Awst 1993 cyflwynwyd iddo Medal Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru gan y frenhines am ei wasanaeth hir dymor i amaethyddiaeth.

Ffermio oedd bywyd Dei ac roedd ganddo ddiddordeb arbennig yn y dull traddodiadol o drin y tir. Roedd yn feistr ar blygu sietin ac enillodd sawl gwobr am hynny. Bu hefyd yn cystadlu ac yn beirniadu mewn treialon cŵn defaid. Roedd yn ddyn ei filltir sgwâr a bu'n hynod garedig a chefnogol i'r bobl ifainc hynny oedd yn dechrau dilyn gyrfa mewn amaethyddiaeth. Yn ogystal, cododd fyngalo, Glasfryn, ym Mhenrhyn-coch ac roedd yn hynod falch ohono.

Wedi treulio cyfnod yng Nglanrafon symudodd i Llety Llwyd a mawr oedd ei falchder pan ddaeth Ioan a Ffion i fyw ato a pharhau â'r gwaith o ffermio. Yn 2013 symudodd i'r Felin lle derbyniodd pob gofal gan y teulu, ac yno y bu farw'n dawel.

Cynhaliwyd yr angladd yn Horeb ar 21 Mawrth, o dan arweiniad y Parchedigion Judith Morris a Peter M Thomas. Unwaith eto, cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu hiraeth a'u galar.



Mae hanesydd y cyfryngau o Cae Mawr ac o Brifysgol Aberystwyth wedi ennill Grant Prosiect Ymchwil gan Ymddiriedolaeth Leverhulme er mwyn astudio'r berthynas rhwng teledu a chymdeithas yng Nghymru yn ystod y 1970au.

Dyfarnwyd £114,000 dros gyfnod o dair blynedd i Dr Jamie Medhurst, Uwch Ddarlithydd yn y Cyfryngau a Chyfathrebu a chyd-Gyfarwyddwr Canolfan Hanes y Cyfryngau yn y Brifysgol. Mae'r grant yn cynnwys ysgoloriaeth PhD fydd yn canolbwyntio ar un agwedd benodol o'r astudiaeth.

# Canlyniadau Pêl-droed Penrhyn-coch

**Tim cyntaf**
**05/03/16 – Cynghrair**
Penrhyn-coch 2-1 Carno
**08/03/16 – Cwpan CBCC**
Cegidfa 3-2 Penrhyn-coch
**12/03/16 – Cynghrair**
Llanrhaeadr 0-1 Penrhyn-coch
**19/03/16 – Cynghrair**
Trefyclo 2-1 Penrhyn-coch
**28/03/16 – Cynghrair**
Tywyn & Bryn-crug 1-3 Penrhyn-coch

**Eilyddion**
12/03/16 – Cwpan Ceredigion
Penrhyn-coch 2-2 (2-3 Ciciau cosb) Crannog
19/03/16 – Cynghrair
Penrhyn-coch 1-2 Aberdyfi

**Menywod**
13/3/16 – Cynghrair
Prifysgol Aberystwyth 3-1 Penrhyn-coch

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 16 Chwefror 2016, yn Neuadd y Penrhyn, gyda'r Cadeirydd, y Cynghorydd Dai Mason, yn y gadair. Roedd Gwenan Price wedi anfon ymddiheuriadau; roedd Mr a Mrs Alun James hefyd yn bresennol am ran o'r cyfarfod.

Materion yn codi: Golau yn agos i Ger-y-llan - gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir am grantiau i ddarparu golau newydd yn agos i'r man croesi o Ger-y-llan i'r sgwâr; hefyd penderfynwyd cael amcan-bris am y gwaith. Nid oedd dim i'w adrodd am y materion eraill a oedd yn codi.

Cais cynllunio Mrs Mearina James - roedd Mrs James wedi anfon y cynllun busnes ar gyfer y fenter ger Gwelfor, Penrhyn-coch i'r Cyngor ac roedd wedi cael ei ddosbarthu i'r aelodau. Rhoddwyd caniatâd i Mrs James siarad, a dywedodd fod y cynllun busnes yn cael ei ystyried gan swyddogion Adran Gynllunio Cyngor Ceredigion ar hyn o bryd. Roedd Mrs James am i'r Cyngor Cymuned anfon at y Cyngor Sir i gynnig y dylai'r cais fynd i Bwyllgor Datblygu'r Cyngor. Eglurodd y Cadeirydd fod y Cyngor Cymuned wedi trafod y mater hwn ym mis Ionawr, ac wedi penderfynu gadael y mater i'r Cyngor Sir gan ei fod yn fater technegol yn ymwneud â'r hawl i godi tŷ yn gysylltiedig â menter amaethyddol. Cytunodd mwyafrif yr aelodau â hyn.

Cae Chwarae Pen-bont - adroddwyd fod 'container' yn dal i fod mewn congl o'r cae chwarae. Roedd un o'r trigolion lleol wedi cael caniatâd i'w roi yno am gyfnod i storio celfi, ond roedd yno ers dros flwyddyn erbyn hyn. Cytunodd Dai Mason i edrych i mewn i'r mater.

Grantiau gan y Cyngor: penderfynwyd cynnig y grantiau a ganlyn ar gyfer 2015/16 - Brownis Penrhyn, £150; Eisteddfod Penrhyn, £200; Pêl-droed Ieuenctid Penrhyn, £400; Tîm Pêl-droed Merched Penrhyn, £400; Y Tincer, £250; Cyfeillion Tregerddan, £300; Cae Chwarae Penrhyn (PATRASA), £300; Cae Chwarae Pen-bont, £300; Cylch Meithrin Penrhyn, £300; Neuadd y Penrhyn, £500; Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Penrhyn, £300; Ambiwlans Awyr, £300; cyfanswm o £3,450.

Unrhyw fater arall: Adroddodd Dai Mason fod yna siafft fawr wedi agor yng Nghwmerfyn yn dilyn y tywydd gwlyb diweddar; roedd yn beryglus dros ben, ac roedd y Cyngor Sir wedi codi ffens o'i chwmpas. Tynnwyd sylw at dyllau yn y ffordd rhwng groeslon Gogerddan a'r rhyd; ger Tipyn-fach, Bont-goch; ger Salem; a nifer ar y ffordd rhwng Pen-dam a Chwmerfyn.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 15 Mawrth 2016, yn Neuadd y Penrhyn, gyda'r Cadeirydd, y Cynghorydd Dai Mason, yn y gadair. Roedd Mel Evans a Richard Owen wedi anfon ymddiheuriadau.

Materion yn codi: Tir gyfebyn â Horeb - dywedodd Dai Mason ei fod yn gobeithio cyfarfod â swyddogion o'r Cyngor Sir yn ystod y pythefnos nesaf i drafod y mater. Maes Seilo - roedd e-bost wedi dod gan y Cyngor Sir yn dweud nad hwy oedd biau'r tir ger Maes Seilo; penderfynwyd cysylltu eto â Thai Ceredigion i geisio cael ateb pendant. Cae Chwarae Pen-bont - adroddwyd fod y 'container' wedi cael ei symud. Nid oedd dim i'w adrodd am y materion eraill oedd yn codi.


Gohebiaeth: Un Llais Cymru - cadarnhawyd aelodaeth y Cyngor o Un Llais Cymru.

Tower Mint - roedd cynnig wedi dod i brynu medalau ar gyfer dathlu pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed. Penderfynwyd, trwy fwyafrif, y dylid prynu rhai i blant yr ysgol gynradd a'r ysgol feithrin.

Unrhyw fater arall: Adroddodd Dai Mason am 'y llwybr diogel i'r ysgol'. Nododd Edwina Davies fod sied fechan wedi cael ei chodi gan y Clwb Pêl-droed yn agos iawn i'r llwybr hwn. Nodwyd hefyd fod baw cŵn yn dal i fod yn broblem yn ardal y cae chwarae, a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i holi am arwyddion a bin baw cŵn newydd. Y twll ger Glan-ffrwd - dywedodd Gwenan Price fod y twll hwn yn beryglus iawn. Yr Hen Ficerdy - nodwyd fod dŵr yn llifo'n aml dros y ffordd ger yr Hen Ficerdy ar dywydd gwlyb. Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir am y ddau fater hyn.

# Adolygiad

**DEWI: SANT I BOB OES**
Gerald Morgan, *Ar Drywydd Dewi Sant* (Y Lolfa, 2016), 152tt. £5.99.




Boed fynychwyr cinio ar Fawrth y Cyntaf neu gerddwyr mewn parêd Gŵyl Ddewi, ychydig iawn ohonom sy'n gwybod rhyw lawer am y gŵr a ysbrydolodd ddathliadau o'r fath. Mae'n wir i'w wyrth honedig o godi bryn dan ei draed yn Llanddewibrefi lynu'n gadarn yn nychymyg y genedl—cyfeiriwyd ati ar Ddygwyl Ddewi yn Senedd San Steffan eleni—ond beth am fwy o hanes y sant? Nod Gerald Morgan yn y gyfrol hon yw 'r[h]oi cymorth i bobl nad oes modd iddyn nhw dyrchu mewn llyfrgelloedd academaidd ond sy'n dymuno gwybod rhywbeth mwy am ffigur amlochrog nawddsant Cymru.' Noda yn ei ragair nad oes modd 'gwneud stori gymhleth yn syml, ond rwyf am ei gwneud yn ddarllenadwy hyd fy ngallu.' Fe lwyddodd yn gampus yn hynny o beth yn y gyfrol fechan ond cynhwysfawr hon.

Dangosir yma mai ffigur annelwig sy'n agos ar goll yn niwl y gorffennol yw'r Dewi hanesyddol, y mynach duwiol o'r chweched ganrif. Aeth pum can mlynedd heibio cyn i Rygyfarch o Lanbadarn (m. 1099) lunio'i fuchedd, a dogfen broblemus yw honno: fel sy'n gyffredin ym mucheddau saint mae'n cynnwys mwy o lên gwerin—fel y sôn am wyrthiau—a ffuglen bietistaidd—fel yr honiad i Ddewi deithio i Gaersalem—nag o hanes dibynadwy. Mab oedd Dewi, meddir, i Non a dreiswyd gan Sant, brenin Ceredigion. Ond ai dyma'i rieni mewn gwirionedd? Mae enwi ei dad yn Sant yn tueddu i godi amheuon! Ag ardal Tyddewi, wrth gwrs, y cysylltir Dewi yn nhraddodiad yr eglwys ac yn nychymyg y genedl, ond fel y dangosir yma mae'n bosib mai Ceredigion—a Henfynyw yn benodol—oedd canolbwynt gweithgarwch Dewi ac mai cael eu hail-leoli'n ddiweddarach yn Nhyddewi fu hanes ei sefydliad eglwysig a'r traddodiadau amdano. Efallai'n wir mai Cardi oedd Dewi! Sicrach na llawer peth arall yw honiad Rhygyfarch mai byw'n llym a hunanaberthol ar ddŵr a llysiau ac aredig heb ychen na cheffylau a wnâi Dewi a'i fynaich duwiol. Prin, gellir tybio, y cymeradwyai Dewi Ddyfrwr ein gloddesta i ddathlu ei ŵyl!

Gan brinned ein gwybodaeth am y Dewi hanesyddol mae'n anorfod mai hynt y cof amdano drwy'r oesoedd yw prif bwnc y gyfrol. Olrheinir lledaeniad ei gwlt, sut y ceir eglwysi a gysegrwyd iddo'n gynnar nid yn unig yng Nghymru ond hefyd yn Lloegr, Iwerddon a Llydaw, a'r modd y daethpwyd i'w ystyried yn nawddsant cenedlaethol: yn y gerdd *Armes Prydein* (tua 930) fe'i darlunnir fel ysbrydolwr cyrch milwrol ar y Saeson gan y Cymry a'u cyd-Geltiaid. Rhoir sylw i Dyddewi, ffocws ei gwlt a lleoliad ei seintwar a'i greiriau; denodd cyfoeth yr eglwys yno sawl ymosodiad gan Northmyn o Iwerddon, ac mewn un cyrch yn 1089 dinistrwyd seintwar Dewi a dwyn ei greiriau (ailddarganfuwyd 'esgyrn Dewi' maes o law, ond siom oedd y profion DNA modern a'u dyddiodd bum canrif yn ddiweddarach nag oes y sant).

Daeth dylanwadau newydd i Dyddewi yn sgil dyfodiad y Normaniaid, a gall mai adwaith gwladgarol i hyn oedd buchedd Rhygyfarch. Yr oedd hen draddodiad ymhlith y Cymry i Ddewi fod yn archesgob, a phennod ddiddorol yn y llyfr yw'r un am ymdrechion glew ond aflwyddiannus yr esgob Normanaidd Bernard (m. 1148) a'r hanner-Norman enwog Gerallt Gymro i ennill statws archesgobaeth i Dyddewi yn annibynnol ar Gaer-gaint. Rhoir sylw dyledus i waith adeiladu dau o esgobion Tyddewi, Peter Lee (m. 1198) a Henry Gower (m. 1347), ac olrheinir y modd y daeth yr eglwys a'r ardal—gyda'i chapeli a gysegrwyd i amryw o seintiau, gan gynnwys Non a Phadrig, a'i ffynhonnau sanctaidd—yn gyrchfannau tra phoblogaidd i bererinion gan ychwanegu at fuddiannau materol yr esgobaeth. Ceir pennod ddiddorol ar ganiadau'r beirdd—Gwynfardd Brycheiniog, Iolo Goch a Ieuan ap Rhydderch—i Ddewi, cerddi ac ynddynt fanylion nas ceir ym muchedd Rhygyfarch, a phennod arall ar le Dewi yn addoliad yr eglwys ganoloesol, gan roi sylw i *Antiphonal* Pen-pont, llawysgrif o gerddoriaeth ac o weddïau a darlleniadau ar gyfer Gŵyl Ddewi, un o drysorau'r Llyfrgell Genedlaethol er 1969. Daeth y byd crefyddol a gynhyrchodd lawysgrifau o'r fath i ben yn sgil y Diwygiad Protestannaidd. 'Tswnami dinistriol', chwedl Gerald Morgan, oedd dyfodiad yr esgob Protestannaidd William Barlow i Dyddewi yn 1538: llosgodd Barlow hen lyfrau'r eglwys, ysbeilio seintwar Dewi a gyrru'r esgyrn a'r tlysau i'w feistri yn Llundain. Sêl ddiwygiadol gymeradwy, ynteu fandaliaeth anfaddeuol?

Os cilio i gryn raddau o fywyd crefyddol y Cymry a wnaeth Dewi yn sgil y Diwygiad Protestannaidd a thwf ymneilltuaeth maes o law, fe ddatblygodd yr hyn a eilw Gerald yn 'bersonoliaeth seciwlar'. Ymdrinnir yma â dathliadau Gŵyl Ddewi, gan ddyfynnu tystiolaeth lenyddol o ddyddiau Shakespeare ymlaen ynghylch arfer y Cymry o wisgo cennin, arfer a enynnodd wawd y Saeson weithiau. Olrheinir yn ddifyr hynt ryfeddol y sant mewn gweithiau llenyddol Saesneg anghofiedig, megis rhamant anhygoel Richard Johnson (m. 1622) lle'r ymddengys yn un o saith nawddsant arwrol sy'n cyflawni pob math o wrhydri: uchafbwynt anturiaethau Dewi yw achub tywysoges o'r enw Rosetta ac yna'i phriodi! Pur ryfeddol hefyd oedd *The Leek* (1717) gan Nathaniel Griffith o Sir y Fflint, 'un o'r cerddi gwlatgar Cymreig rhyfeddaf i ddod erioed o'r wasg' lle ymrithia Dewi fel arwr milwrol sy'n hyrddio gwaywffon drwy geg rhyw Sais haerllug ('And nail'd his venom'd Tongue up to his Head')! Cyflwynwyd y gerdd i'r 'Honourable and Loyal Society of Ancient Britons', cymdeithas o Gymry Llundeinig y bu iddi ran allweddol mewn sefydlu'r arfer o gynnal ciniawau Gŵyl Ddewi, defod a ddaeth yn dra chyffredin yng Nghymru ac ymhlith Cymry alltud yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'r gyfrol hon yn enghraifft ragorol iawn o sgrifennu hanes poblogaidd wedi ei wreiddio mewn ysgolheictod cadarn (manteisiwyd ar y gwaith ymchwil diweddaraf un fel y dengys y llyfryddiaeth ar ei diwedd). Mae'n llwyddo'n orchestol i olrhain yn ddifyr hynt ffigur cymhleth Dewi a liwiodd grefydd ac ymwybyddiaeth genedlaethol y Cymry am bymtheg canrif. Dyma drysor o gyfrol sy'n fargen yn wir am £5.99.

**Gruffydd Aled Williams**

# Twrnament Pêl-droed

Ar ddyddiau Sadwrn 9fed a Sul 10fed o Ebrill cynhaliwyd Gŵyl Bêl-droed Eric ac Arthur Thomas am y 4ydd waith ar gaeau Cae Baker. Mae yn dwrnament llwyddiannus iawn erbyn nawr ac yn hawlio ei le yn nghalendar twrnamentau yr ardal. Er fod y glaw wedi dod fore dydd Sadwrn fel roedd pawb yn cyrraedd, fe wellodd y tywydd ac fe gafwyd diwrnod bendigedig o bêl-droed.

Ar y dydd Sadwrn roedd cystadlaethau y rhai bach o dan 7 gyda nifer fawr o dimoedd yn mwynhau chwarae yng nghaeau yr Ysgol Gynradd.

Ar Cae Baker roedd y plant o dan 8 a dan 12, gyda phob plentyn o dan 7 ac o dan 8 yn cael medal a thystysgrif am gymryd rhan. Yn y rhai o dan 12 yr enillwyr ar y dydd oedd Aberaeron gyda Padarn yn ail agos.

Ar Gaeau Cwmbwa (cae top) roedd y rhai dan 14 yn chwarae gyda Tal-y-bont yn ennill dros Penrhyn-coch.

Dydd Sul , fe ddaeth yr haul i wenu, ac er yn oer ar adegau, eto fe gafwyd pêl-droed bendigedig.

Ar Cae Baker, o dan 9 yn ennill dros Ystwyth Sharks A oedd Machynlleth Hurricanes, ac o dan 11 Ystwyth Gators B yn fuddugol ar Tal-y-bont.

Ar y cae top Bow Streed Piod aeth a hi mewn gêm glos yn erbyn Celtiaid.

Enillwyd Tlws Sioned a Catrin Thomas, am Chwaraewr y Twrnament gan Ryan Evans o Bow Street ac fe enillodd Elen Ellis o Lanilar Gwpan Coffa Gwenno Tudor am y ferch orau i chwarae yn y twrnament.

Hoffem ar ran yr Adran Ieuenctid o'r Clwb Pêl-droed ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u gwaith caled i wneud y Twrnament yn un llwyddiannus.

Diolch yn fawr iawn i Noddwyr y Dydd - Cambrian Land Rover, ac hefyd nifer a wnaeth noddi y rhaglen.

Noddwyd y Tlysau am eleni gan y canlynol ac mae ein diolch yn fawr iddynt hwythau.

O dan 12 – Mick a Kathy Holmes, Penrhyn-coch
O dan 14 – Knockout Furniture, Aberystwyth
o Dan 9 – Tony a Mel Holmes, Penrhyn-coch
O dan 11 – Graham's Vehicle Repairs
O dan 16 – Chip Box 1, Penparcau

Lluniau gan Jonwatkissimaging.co.uk



Tiny Tots - Penrhyn-coch


Merch Orau'r Twrnament - Elen Ellis - yn ennill Cwpan Coffa Gwenno Tudor.


Dan 9 - ail - Ystwyth Sharks A


Dan 11 - Ail - Tal-y-bont


Dan 14 - ail - Penrhyn-coch


Dan 16- enillwyr - Bow Street


Dan 14 - enillwyr - Tal-y-bont


Chwaraewr Gorau'r Twrnament ac yn ennill Tlws yn rhoddedig gan Catrin Galbraith a Sioned Martin, merched Eric Thomas - yn y llun gwelir George Thomas, mab Sioned a oedd yn dyfarnu ac a ddewisodd Ryan fel y chwaraewr gorau.


Ail - Celtiaid

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Llyfr newydd

Llongyfarchiadau i Peter Lord, Gellifach, ar ei lyfr diweddaraf *The Tradition, A new history of Welsh Art 1400-1990* (Parthian Books). Mae y llyfr yn ffrwyth ymchwil i ddatblygyd celf yng Nghymru ac mae ynddo tua 400 o luniau. Mae yna arddangosfa o luniau yr artist John Cyrlas Wlliams sydd wedi ei chyradu gan Peter i'w gweld ym Mhlas Glyn y Weddw  Llanbedrog tan Mai 15fed. Mae Peter wedi olrhain gwaith yr artist yma yn ei lyfr. Mae yn gyfrol  hardd ac yn haeddu ei lle ym myd celf Cymru. Bydd adolygiad yn rhifyn Mai o'r *Tincer*.

### Ymddeol

Roedd diwrnod olaf mis Mawrth yn ddiwrnod arbennig i dref Aberystwyth, gan i siop H&A.R.Ellis gau ei drysau am y tro olaf un. Mae yn golled fawr i'r dref i golli siop deuluol sydd wedi rhoi gwasanaeth clodwiw am yr holl flynyddoedd. 'Roedd yn le i gyfarfod a phawb ac mi 'roedd y staff bob amser yn groesawgar. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i Ann Ellis, Hywelfan, gan ddiolch o galon iddi hi a'r teulu am eu gwasanaeth. Gobethio y cei di iechyd i fwynhau cwmni Ifan ac Erin, yr wyrion bach, am nifer o flynyddoedd.

### Taith ddifyr

Roedd yn bleser clywed Ioan Lord, Gellifach, yn siarad gyda Geraint Lloyd ar ei raglen radio un noson yn disgrifio yr hyn oedd i'w weld ar y daith drên i fyny i Bontarfynach. Roedd Ioan yn llawn gwybodaeth a hanesion difyr.

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

# LLANDRE

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Llio Penri, Gwyniarth, Tai Gwynion a fuodd yn Ysbyty Llwynhelyg yn ddiweddar.

hefyd gwellhad buan i Erddyn James, Lluarth, Tai Gwynion a fu yn cael triniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Daniel a Anne, Llainwen, Lôn Glanfred ar eu dyweddiad yn Chwefror.

### Banc Bro

Roedd ymweliad TALWRN Y BEIRDD BBC Radio Cymru ar nos Fawrth 22ain yn gyfle i osod y Banc Bro a'r ardal ar fap cenedlaethol Cymru. Hyfryd oedd cael croesawu y cynhyrchydd Dwynwen Morgan yn ôl i'r fro a chael cwmni'r Meuryn dawnus Ceri Wyn Jones. Recordiwyd dwy raglan a chafwyd gornestau rhwng Tîm y Cŵps a Phenllyn a'r Glêr yn erbyn Tan-y-groes. Y Cŵps a'r Glêr oedd y ddau dîm buddugol. Daeth cynulleidfa dda ynghŷd i wylio'r ymryson a Bethlehem unwaith eto yn llawn. Trefnwyd y bwyd gan Gwenda James, Tremedd, a'r raffl gan Nans Morgan.

Rydym wedi llwyddo i gyrraedd ein ffigwr targed ar gyfer aelodaeth y Clwb 50 am eleni. Mae ein diolch yn fawr iawn i'r bobl dda hynny sydd wedi cofrestru o'r newydd fel aelodau. Mae'r incwm hwn yn allweddol i'n galluogi i gynnal digwyddiadau cymdeithasol ac i gefnogi achosion da yn effeithiol. Mae'r ymateb positif hwn yn arwydd pellach o'r ymdeimlad o berthyn i gymuned sy'n bodoli yn yr ardal. Os oes unrhyw un arall am ymuno drwy dalu £2 y mis (£24 y flwyddyn) mae'r drws yn dal ar agor a bydd unrhyw incwm newydd yn fonws i ni. Mae cyfle i ennill gwobrau ariannol bob mis. Diolch i Lynwen a Richard Evans, Llawr y Glyn am eu gwaith.

Dyma enillwyr Banc Bro - Clwb 50 Genau'r-glyn

*Ionawr*
1. Lynwen Evans
2. Llinos Mair Evans
3. Marian Beech Hughes

*Chwefror*
1. Wyn Morris
2. Lorraine Hill
3. Mrs. Ali Mason

*Mawrth*
1. Richard Evans
2. Ken a Joy Evans
3. Mair England

*Ebrill*
1. Wyn Morris
2. Endaf Griffiths
3. D a G Evans

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Nans Morgan ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith - Margretta Jones, Capel Bangor a'i gor-nai Ned Jones.

# Y BORTH

### YMA O HYD - arddangosfa am y Borth

Ar Ebrill 16 agorodd Arddangosfa ym MOMA Machynlleth sydd o ddiddordeb i drigolion  y Borth.

Mae'r ffotograffydd Bruce Cardwell, fu'n byw yn y Borth ers 1981.ar y cyd â'r bardd Elin ap Hywel a'r arlunydd tirluniau Rhodri Evans, yn creu darlun aml-gyfrwng o'r gymuned fywiog sy'n ffynnu yn y pentref. Eu nod yw dathlu'r pethau sy'n gyffrous ac arbennig ym mywyd pob dydd pobl y Borth a'r lle mae nhw'n byw ynddo.

Yn frodor o Gymru, ar ôl byw ar St Kilda am flynyddoedd, mae Rhodri Evans erbyn heddiw yn byw ar  ynysoedd Uist - Ynysoedd allanol Heledd (Hebrides) Ynysoedd ger arfordir gogledd-orllewinol yr Alban. Bu yn y Brifysgol yn Aberystwyth; mae'n  ffrind i Bruce Cardwell ers 30 mlynedd.ac mae'n treulio cryn dipyn o amser yn y Borth.

Am fwy o fanylion gwelir http://ymaohyd.info/
a  http://rhodevans.com/

Bydd yr Arddangosfa i'w gweld yng nghyntedd  MOMA, Machynlleth rhwng 16 Ebrill a 30 Mai; Theatr y Torch, Aberdaugleddau  Mai 30ain - Gorffennaf 30ain; Canolfan Gelfyddydau Pontardawe Awst 16eg - Medi 15fed gan ddychwelyd i Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth o Ionawr 25ain - Mawrth 18fed.

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor uchod ar nos Iau, 31 Mawrth o dan lywyddiaeth y gynghorwraig Sian Jones. Cydymdeimlwyd â'r Cyng. Rob Pugh ar farwolaeth ei fam yn ddiweddar.

Datganwyd llawenydd pan gyhoeddodd y Cyng. Paul Hinge mai pobl leol oedd wedi derbyn tenantiaeth yn yr ystad newydd Foel Goch, ger Cae'r Odyn. Hynny yw tenantiaid o ardal Bow Street, Tal-y-bont, Penrhyn-coch a Chlarach, ac ambell un â chysylltiadau lleol o ardal arall. Yn anffodus roedd stori wedi mynd o gwmpas fod teuluoedd â phroblemau o ardal Lerpwl wedi eu gollwng yn yr ystad, ond doedd dim sail i hyn o gwbl.

Ni chafwyd dim newydd pellach am ddatblygiadau ar Neuadd Rhydypennau. Fel yr adroddwyd o'r blaen, mae dau Dai Ffib wedi eu gosod ac yn weithredol, un wrth Neuadd Rhydypennau a'r llall wrth siop Spar. Cynhaliwyd noson hyfforddiant gyda nifer dda yn bresennol a bydd ymgyrch yn y dyfodol i godi arian tuag at gynnal a chadw y peiriant.

Daeth pedwar cais i law am y contract i dorri porfa y ddau faes chwarae. Penderfynwyd derbyn y pris isaf a gynigiwyd gan Mr Trefor Jones, Penrhyn-coch. Trafodwyd cyflwr cae chwarae Tregerddan, y gwlybaniaeth a'r drysni yn y rhan uchaf. Penderfynwyd cysylltu eto gyda'r perchnogion, sef Prifysgol Aberystwyth yn IBERS. Teimlwyd hefyd nad oedd angen y rhan uchaf a daethpwyd i'r canlyniad mai gwell fyddai ei gynnig yn ôl i IBERS. Mae'r dŵr hefyd yn peri gwlybaniaeth ar fynediad Cartref Tregerddan.

Adroddodd y Cyng. Hinge bod cynllun Fferm Wynt ar fanc Ruel Uchaf wedi cwympo trwyddo oherwydd diffygion technegol yn y cais. Mae tipyn o sbwriel wedi crynhoi ar gae Glan y Môr, tu cefn i Glangors yng Nghlarach, peth wedi ei adael yno a'r gweddill wedi cronni o'r môr adeg y stormydd diwethaf. Mae Cyngor Ceredigion wedi rhoi tair wythnos i'r perchnogion i glirio'r maes a hefyd asiantaeth Cyfoeth Naturiol oherwydd eu cyfrifoldeb hwy yw'r afon. Eglurodd hefyd fel y bydd y dreth arfaethedig ar dai gwyliau a thai gwag yn cael ei weithredu yn y dyfodol. Gall cyfan o'r dreth ddod i'r Cynghorau Cymuned, ond ar ddiwedd y dydd bydd rhagor o gyfrifoldebau yn syrthio ar y cymunedau.

Derbyniwyd 21 cais am drafod cael Coeden Nadolig yn yr ardal, ac fel yr adroddwyd y tro diwethaf, bydd trafodaeth ar y mater yng nghyfarfod mis Medi.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 28 Ebrill 2016.

Siop
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200



eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN 2016
7.30, nos Lun, 25 Ebrill
Loretta Minghella, Prif Weithredwr Cymorth Cristnogol yn annerch ar y testun *"Is Christianity Good News for the Poor?"*. Mynediad am ddim.
EISTEDDFOD CALAN MAI
4.30 ymlaen, dydd Mercher, 27 Ebrill
Eisteddfod i bobl ardal Aberystwyth. Mynediad: £3. Cofrestru ar gyfer cystadlaethau llwyfan ac anfon gwaith cartref erbyn 15 Ebrill.
Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
hedyddcunningham@live.co.uk

# Colofn Enwau Lleol

Y mis diwethaf bûm yn trafod y gair *bwbach* mewn enwau lleoedd yn yr ardal. Rwy'n ddiolchgar i Tegwyn Lewis, Rhos-goch, Capel Madog, ac i Llinos Evans ei chwaer, am ymateb i'r golofn a rhannu eu gwybodaeth â mi.

Tystia Tegwyn a Llinos mai *Banc y Bwbach* yw enw'r bryncyn bychan sy'n gorwedd ar ochr fewn y tro yn y ffordd rhwng Bronfelen a Gwar-cwm, islaw Capel Madog. Er na welais unrhyw gofnod ysgrifenedig ohono, dyma'r enw a ddefnyddir ar lafar ers cyn cof.

Soniais hefyd y tro diwethaf am 'Fwbach y Goeden Fawr' yr adroddwyd ei hanes yn *Y Cymro* yn 1899.

SYR,—Tua phum milldir o Aberystwyth, ar ochr y ffordd rhwng Capel Dewi a Chapel Madog, saif hen dderwen frigog, dalgref, a'i breichiau praff yn ymestyn ar draws y ffordd, nes gwneud y lle yn braidd yn dywyll ganol dydd, ac am y nos—wel, cartref y bwbach ydyw. Am 'Fwbach y Goeden Fawr' y clywsom gyntaf erioed, ac nid yw wedi ymadael o'r fro hyd y dydd hwn. Flynyddoedd yn ol, gwelid ef bob nos gan rywun. Yn ddiweddarach, ar adegau y gwna ei ymddangosiad. Gall hwn ymrithio i bob llun, ac i ffurf pob creadur, ac y mae y chwedlau am dano yn aneirif. Ond fel 'ladi wen' y gwelid ef fynychaf.

1899 *Y Cymro*, 7 Rhagfyr, t. 6
Gwefan Papurau Newydd Cymru Ar-lein, LlGC

Mae Tegwyn yn cofio'i fam yn sôn am y bwbach, a gallodd ddangos y goeden fawr i mi rhwng yr orsaf radar a thŷ Delfryn uwchlaw Capel Dewi. Mae'n rhyfedd felly sut y bu i'r cof amdanynt barhau ar lafar dros y cenedlaethau.



'Y Goeden Fawr' rhwng Capel Dewi a Throed-rhiw.

Yr hyn sy'n ddiddorol am y cofnod hwn yn *Y Cymro* yn 1899 yw iddo gael ei atgynhyrchu, air am air i bob pwrpas, bron i ugain mlynedd yn ddiweddarach, ym mhapur newydd *Y Clorianydd*, ond gyda'r traddodiad wedi ei ail-leoli yn ardal Llannerch-y-medd, Môn.

ach y Goeden Fawr ymhell ac yn agos. Flynyddoedd lawer yn ol gwelid ef bob nos gan rywun. Yn ddiweddarach ar adegau y gwnai ei ymddangosiad. Gallai hwn ymrithio i bob llun ac i ffurf pob creadur, ac y mae y chwedlau am dano yn aneirif. Ond fel "ladi wen" y gwelid ef fynychaf.

1918 *Y Clorianydd*, 2 Ionawr, t. 3
Gwefan Papurau Newydd Cymru Ar-lein, LlGC

Clywais droeon am lên-ladrad, ond mae lladrad llên gwerin yn newydd i mi!


**Angharad Fychan**

**Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org**

# Taith gerdded y mis

## Glanyrafon beibio Pwllclai

**Man dechrau**: Parcio ar ochr y ffordd ger gorsaf Glanyrafon.
**Map**: OS Explorer213. GR 614805.
**Pellter**: 3.7 milltir ar hyd ffyrdd tawel.




Ymlaen ar hyd y ffordd heibio Trering a Pwll Cenawon a throi i'r dde heibio Pwll-clai. Ar ôl y tŷ gall y ffordd fod yn wlyb a byddwch yn ofalus i gadw ochr dde'r clawdd. Troi i'r dde lawr heibio Troedrhiwlasgrug ac yn ôl i'r man dechrau.

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Pennau
**Ar agor Mawrth – Sadwrn**
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

Dilynwch y Tincer ar Trydar **@TincerY**

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Ffair Basg
Cafodd yr ysgol Ffair Basg lwyddiannus iawn eto eleni. Trefnwyd y CRhAaFf lawer o weithgareddau hwylus e.e. 'Ŵy Pwy', Helfa wyau, gweithgaredd garddio, peintio wynebau, stondin 'Borth Cupcake Bake-off' a stondin gwerthu dillad plant. Roedd llawr o'r plant wedi creu het Pasg. Prynhawn llawn hwyl a sbri!

### Hafan Cymru
Daeth Miss Jenkins mewn o Hafan Cymru cyn y Pasg i drafod teimladau a sut i drin pobl eraill. Cafodd y plant hwyl wrth chwarae gêmau a chymryd rhan mewn gweithgareddau drama. Diolch yn fawr iawn.

### Prynhawn chwaraeon ar y buarth.
Daeth Mair Tomos Ifans allan i weithio gyda phlant Cyfnod Sylfaen o Ysgol Craig yr Wylfa, Ysgol Llangynfelyn ac Ysgol Tal-y-bont. Cafodd y plant lawer o hwyl chwarae gêmau ar y buarth a gwneud ffrindiau newydd.

### Wythnos Wyddoniaeth
I ddathlu wythnos wyddoniaeth, cafodd Cyfnod allweddol 2 gyfle i ymweld â Gorsaf Bŵer Rheidol. Yng Nghwmrheidol buom mewn dau weithdy gwahanol. Yn gyntaf, roedd rhaid adeiladu serchit drydan, ac wedyn buom yn edrych ar wahanol fathau o bontydd. Roedd rhaid adeiladu pont mewn grwpiau, ac roedd rhaid gweld pwy adeiladodd y bont orau gan weld pa un oedd yn gallu gafael ar y pwysau fwyaf. Roedd y diwrnod wedi ei drefnu gan Techniquest ac fe aethom ar daith o gwmpas yr orsaf. Fe gafodd y plant digon o gyfle i ddatrys problemau rhifedd ac ymarfer sgiliau meddwl.

Hefyd, buom yn y Ffair wyddoniaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yno cawsom gyfle i gael profiad ymarferol o wyddoniaeth er mwyn atgyfnerthu agweddau o'r cwricwlwm. Roedd llawer o weithgareddau ac roedd hi'n hwyl i fod yn rhan o'r diwrnod.

### Cestyll a Dreigiau
Thema Cyfnod Allweddol 2 hanner tymor yma yw Cestyll a Dreigiau. Fe aeth dosbarth Miss Hughes i ymweld ag Amgueddfa a Chastell Aberystwyth. Roedd yn gyfle gwych i ddysgu am hanes y castell a hefyd darganfod gwahanol arteffactau a oedd yn cael eu defnyddio amser maith yn ôl.











# Ysgol Pen-llwyn

### Twrnament Pêl-droed

Bu blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan yn y twrnament 8-bob-ochr ym Mlaen Dolau ddydd Iau, 17eg o Fawrth. Perfformiad da-daliwch ati!

### Deilen Cam 3 Ysgol Iach

Rydym yn falch iawn o dderbyn ein 3ydd deilen ysgol iach. Da iawn i bawb fu'n gweithio'n galed.

### Eisteddfod ysgol

Cynhaliwyd ein Eisteddfod ysgol eleni yn Neuadd Pen-llwyn gan fod lle yn brin y llynedd yn yr ysgol. Cafwyd cystadlu brwd o oedran meithrin i flwyddyn 6, a daeth cynulleidfa dda i'w cefnogi. Dyfarnwyd gwobrau a rhannwyd tystysgrifau yn yr ysgol ar ddiwedd yr wythnos. Da iawn i bawb a gymerodd ran. Enillwyd cadair yr Eisteddfod gan Liam Evans, blwyddyn 6, am gyfres o benillion am bethau sy'n hedfan. Cafwyd arddangosfa o waith celf y plant yn y neuadd ac erbyn hyn fe'u gwelir yng nghyntedd yr ysgol.

### Ymadawiad Mr Evans

Buom yn ffarwelio â'r pennaeth Mr Emyr Pugh Evans fore Mawrth ola'r tymor. Daethom at ein gilydd fel ysgol i gyflwyno rhodd o lun gan artist lleol a chacen fawr ac arni'r geiriau 'Diolch Mr Evans'. Cafodd pawb fwynhau darn ohoni cyn ffarwelio. Derbyniodd anrheg yn ogystal gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon. Dymunwn bob lwc a hapusrwydd yn ei ysgol newydd yn Abercynon ar ôl y Pasg.

### Croesawu Pennaeth newydd

Treuliodd Catryn Lawrence fore gyda ni yn yr ysgol ar ddydd Mercher ola'r tymor. Cafodd gyfle i gyfarfod y plant a'r staff a dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd iddi yn ei swydd newydd fel ein pennaeth.







Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
Perchnogion:
Gwyn a Janet Evans
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mán
01970 820149
07980 687475

Harddwch Siriol Beauty
07962 861 822
www.facebook.com/siriolbeauty
Brynsiriol,
Bow Street, Ceredigion SY24 5AR

# Ysgol Penrhyn-coch



### Sport's relief
Trefnwyd gweithgaredd i gefnogi achos Sport's relief gan y Cyngor Ysgol a gyda chymorth Miss Cory. Gwelwyd y plant yn rhedeg milltir o gwmpas ffiniau'r ysgol. Roedd y disgyblion a'r staff yn edrych yn effeithiol yn eu gwisgoedd coch ac roedd yr ymdrech yn 100%.

### Brecwast Masnach Deg
Ar fore Mawrth ola'r tymor, fe drefnodd Cyngor y Plant Gwyrdd frecwast o gynnyrch lleol a masnach deg i staff yr ysgol! Cafon nhw gymorth gan Mrs Watkins, ein cogyddes, ac roedden ni i gyd wrth ein boddau!

Mae'r criw yn gobeithio gwneud yr un peth eto trwy gynnig brecwast i'r gymuned

### Ffarwelio â Mr Evans
Cafwyd noson anffurfiol i ffarwelio â Mr Emyr Pugh-Evans yn Neuadd y Penrhyn ar nos Wener 18fed. Roedd y neuadd yn orlawn o gyn aelodau o'r staff, teuluoedd, hen ffrindiau a thrigolion y pentref a chafwyd eitemau amrywiol iawn o'r disgyblion presennol yn canu rheolau'r ysgol, disgyblion yn canu medli o hen ffefrynnau, bois y pres ac Annie May a'u hofferynnau ac wrth sgwrs Sgets y Staff –Connor Robinson yn actio Mr Evans, Carys James yn actio Miss Cory a Stephanie Merry yn dynwared Mrs Lynne Jones!!! Yn cadw trefn rhwng yr eitemau oedd dau cyn-ddisgybl, sef Sion Wyn a Sion James (Sion mawr a Sion bach) ac roedden nhw wedi arwain y cwbwl yn gampus iawn. I goroni'r adloniant cafodd Mr Evans dipyn o sioc pan welodd hen ffrindiau iddo, sef aelodau Aber Jazz , yn cerdded mewn i ddiddanu a chwarae teg aeth Mr Evans i ymuno â nhw! Cafodd pawb ddigonedd o gaws a gwin wrth gymdeithasu wedi'r adloniant.

Hoffwn ni i gyd yn yr ysgol ddymuno pob hapuswydd i Mr Evans a'i deulu yn Abercynon a diolch iddo am ei waith caled a'r gefnogaeth rydyn ni i gyd wedi gael oddi wrtho.

### Ymweliad Blwyddyn 1 a 2 â Atebol
Mae disgyblion dosbarth 2 yn ysgrifennu stori dosbarth ac aeth criw ohonyn nhw i rannu'r stori gyda staff cwmni Atebol. Cafwyd croeso arbennig ac mae'r plant yn deall bellach y broses o greu'r stori a'r hyn sydd eisiau iddyn nhw ei wneud i fedru troi'r llyfr allan yn y Lolfa. Mae'n gyfnod cyffrous ac mae'r plant (a'r staff) yn disgwyl ymlaen i fedri cael copi caled o'r stori unigryw hon!

### Kerbcraft
Mae disgyblion blwyddyn 1 ers blynyddoedd bellach wedi derbyn hyfforddiant diogelwch y ffordd gan Mrs Ifana Lloyd o Gyngor Sir Cereedigion. Mae'r sesiynau wedi dod i ben a hoffwn ddiolch i Ifana am ei chyfeillgawrch dros y blynyddoedd a dymuno yn dda iddi.

### Tag Rygbi
Aeth criw o aelodau'r Urdd i lawr i Aberaeron i gymryd rhan yn nhwrnament rygbi tag. Chwaraewyd gemau amrywiol a chafwyd llawer iawn o hwyl.

Llongyfarchiadau i dîm hoci Bro Dafydd am ddod yn 'runners up' yng ngynghrair twrnament b ar ddiwedd y tymor. Diolch i Miss Cory sydd wedi bod yn hyfforddi'r criw bob wythnos

### Pêl droed y cylch
Aeth criw i lawr i gymryd rhan yn nhwrnament pêl-droed y cylch yn ystod yr wythnosau olaf. Chwaraewyd nifer o gêmau ac er ennill rhai, ni lwyddwyd i fynd drwodd i'r rowndiau terfynol. Da iawn i bob un am chwarae yn arbennig. Gwell hwyl tro nesaf.

### Ffair Wyddoniaeth
Aeth blynyddoedd 5 a 6 i lawr i'r Brifysgol i ymweld â Ffair Wyddoniaeth. Yn ystod y bore, cafwyd cyfle i arbrofi ac i weld Gwyddoniaeth wrth ei waith. Treuliwyd bore llawn hwyl yn dysgu am y pwnc. Gobeithio ei fod wedi sbarduno diddordeb y disgyblion yn y pwnc.

### Eisteddfod yr Urdd
Aeth nifer o unigolion i gynrychioli'r ysgol yn yr eisteddfod gylch ac fe lwyddodd Imogen Usher dderbyn y drydydd safle yn y llefaru unigol i ddysgwyr. Dyw Imogen erioed wedi cystadlu na chamu ar lwyfan mor fawr o'r blaen. Campus!

Ymlaen wedyn i'r Eisteddfod Sir ym Mhontrhydfendigaid ac fe lwyddodd y Gân actol dderbyn y wobr gyntaf!! Roedd y criw o 30 wedi gwneud eu gorau glas ac wedi mwynhau ar y llwyfan mawr! Byddwn yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Fflint ar Ddydd Mercher Mehefin y 1af. Gwnewch eich gorau!

### Croeso i'r ysgol
Hoffwn groesawu disgyblion newydd i'r ysgol; bydd Gruffydd ap Llywelyn, Seren Lockyear a Jacob yn dechrau yn nosbarth Miss Cory.



# Ysgol Rhydypennau

**Diolch**

Dymuna Bethan Davies ddiolch o galon i holl blant,staff a chyfeillion Ysgol Rhydypennau am eu cyfeillgarwch, cefnogaeth a charedigrwydd yn ystod yr ugian mlynedd diwethaf. Cefais amser hapus a nifer o brofiadau i'w cofio tra yn yr ysgol. Pob lwc a dymuniadau da i'r ysgol yn y dyfodol. Diolch yn fawr.
Bethan Davies



Mwynhau Wythnos gwyddoniaeth-Ifan Clubb a Nicholas Garrod.



Cystadleuaeth y Gadair-Gweni King-ail, Chloe Jones-enillydd, Jamie Thomas-Trydydd a Lili Lyons-'canwr y corn'.



Mrs Bethan Davies yn ffarwelio a'r Ysgol.



Capteniaid y tîm buddugol-Eleri-Ifan Clubb ac Erin Fielding.

# Cyngor Cymuned Melindwr

Ar nos Iau 17 Fawrth 2016, gyda'r Cynghorydd Jean Watson yn y gadair a'r Cynghorwyr Andrea Jones, Richard Edwards, Aled Lewis, Bethan Bebb, Gareth Daniel,Llinos Jones, Aled Jones a'r Cynghorydd Sirol Rhodri Davies yn bresennol fe drafodwyd y canlynol:

Croeso i'r Cynghorwyr newydd sydd wedi ei cyf-ethol i'r Cyngor, sef Eluned Lewis ac Aled Jones.

Derbyniwyd ymddiswyddiad oddi wrth y Cynghorydd Dafydd Fryer. Dymuna'r Cynghorwyr ddiolch i'r Cynghorydd Dafydd Fryer am ei wasanaeth i'r Cyngor am dros 21 mlynedd ac wedi wneud hynny'n dawel ac yn ddiymhongar.

Derbyniwyd ymddiswyddiad oddi wrth y clerc. Bydd y Cyngor yn hysbysebu'r swydd yn fuan a gallwch gael manylion gan y Cadeirydd, Jean Watson.

Bwriedir prynu 4 diffibriliwr a'u lleoli hwy yng Nghapel Bangor, Pantycrug, Cwmrheidol ac yng Ngoginan. Bu noson lawnsiad ac hyfforddiant yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos.

Os dymunwch gyfrannu tuag at y diffibrilwyr, croeso i chi gysylltu gyda'r Cyngor.

Os ydych yn ymwybodol o unrhyw broblem, yna cysylltwch gyda'ch cynghorydd lleol

# Tasg y Tincer

Gobeithio i chi fwynhau eich gwyliau Pasg. Faint o wyau siocled gawsoch chi? Roedd yn grêt cael yr holl luniau lliwgar drwy'r post – 14 ohonyn nhw – a dyma'r enwau: Megan Hughes, Tal-y-bont; Elin Pierce Williams, Bow Street; Iestyn Myrddin Tobias, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd; Dylan Rhys Herron, Bow Street; Lucie Medhurst, Penrhyn-coch; Iestyn Roberts, Penrhyn-coch; Beca Davies, Bont-goch; Anest Erwan, Bow Street; Ania Evans, Capel Bangor; Gwenan Mair Leggett, Dinas Powys; Ffion Curley, Penrhyn-coch; Lleucu, Mabli a Gruffudd ap Llywelyn, Capel Madog.

Roedd pob un o'r lluniau'n hyfryd dros ben, ond roedd rhaid dewis un llun o'r het ... a ti, Ania Evans, sy'n ennill y tro hwn– llongyfarchiadau!


Fy hoff beth i yr adeg hon o'r flwyddyn yw gweld clychau'r gog yn garped glas ar lawr. Beth am fynd i weld a oes rhai'n tyfu yng Nghoedwig Gogerddan? 'Dyfod pan ddêl y gwcw, myned pan êl y maent' meddai un bardd am glychau'r gog. Y mis hwn, beth am liwio llun o'r blodyn, gyda'r dylwythen deg yn eistedd yng nghanol y petalau glas? Mae'r tymor pêl-droed yn tynnu at ei derfyn, hefyd, ond pa dîm fydd ar y brig, tybed? Bydd sawl gêm gyffrous i'w chwarae cyn diwedd y tymor, ac mae Ewro 2016 yn dod yn nes ... ewch amdani, Gymru! Rhowch liwiau eich hoff dîm ar wisg y chwaraewr brwd.

Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Mehefin 1af. Ta ta tan toc!



Ania






Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed

**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
**07968 728470**
**01970 820375**

**TACSI EDDIE**
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009